# tafod elái

MAI 2014

Rhif 287

Pris 80c


## 850 o Dai ar Safle Gwaith Go-losg



Mae Cwmni CPL wedi rhoi cais cynllunio ar gyfer 850 o dai ac ysgol gynradd i 240 o blant ar safle'r hen waith golosg y Cwm, Beddau. Mae'r safle wedi bod yn ddiffaith ers blynyddoedd a chredir fod angen buddsoddiad o £10m i waredu gwastraff o'r safle a gosod heolydd.

Roedd gwrthwynebiad yn 2002 i gynllun tebyg a gwrthodwyd yr apêl cynllunio gan Lywodraeth Cymru yn 2007.

Y tro hwn mae Swyddog Cynllunio Cyngor Sir Rhondda Cynon Taf yn argymell caniatau y cais er fod angen cadarnhau manylion mynediad heolydd i'r safle. Mae'r tyrrau oeri oedd yn rhan o'r gwaith golosg o ddiddordeb arbennig ac wedi eu rhestru fel adeiladau hanesyddol a bwriedir eu cadw.

Fel rhan o'r datblygiad bydd Ysgol Gynradd newydd ar gyfer 240 o blant. Ar hyn o bryd clustnodir hon fel ysgol Saesneg er bod y ddwy ysgol Gynradd Gymraeg gyfagos, Castellau a Gartholwg, yn orlawn. Mae llefydd gwag yn y ddwy ysgol Saesneg gyfagos sef Gwaunmiskin Primary a Llwyncrwn Primary.

## Gwobr i Fusnes Arloesol




Ddydd Gwener Mawrth 28ain cyhoeddwyd Y Gorau o Gymru yn fuddugol fel Busnes y Flwyddyn 2014 yn y Sector Gwasanaethau yn Noson Wobrwyo Clwb Busnes Rhondda Cynon Taf. mae'r wobr hon yn cydnabod ac yn dathlu twf, cyrhaeddiad, gwasanaeth a phob rhinwedd arall sy'n cynrychioli'r gorau o fusnesau'r Rhanbarth. Y gyflwynwraig deledu a'r athletwraig marathon eithafol Lowri Morgan oedd yno i ysbrydoli fel siaradwraig wadd. Gareth Mahoney derbyniodd y wobr ar ran cwmni Y Gorau o Gymru.

Asiantaeth llety hunan ddarpar yw Y Gorau o Gymru gyda dros 220 o fythynnod, ffermdai, cabanau coed, apartments ayb ar hyd a lled Cymru. Yn y flwyddyn ddiwethaf croesawodd Y Gorau o Gymru dros 10,000 o gwsmeriaid ar eu gwyliau i Gymru. Maent yn gwmni cyfan gwbl ddwyieithog ac mae'r holl ohebiaeth gydag ymwelwyr a pherchnogion llety ar gael yn Gymraeg neu Saesneg.

## Pennaeth Newydd Ysgol Llanhari



Penodwyd Mrs Rhian Phillips fel Pennaeth newydd Ysgol Llanhari. Mae Mrs Phillips wedi bod yn Ddirprwy yn yr ysgol ers 2003, ac fe fydd hi'n dechrau yn ei swydd newydd ym mis Medi wedi ymddeoliad y Pennaeth presennol, Mr Meirion Stephens.



Dafydd Lawrence, Ifan Griffith, Jac Bevan a Bethan Donnelly Bl 12

Llongyfarchiadau i ddisgyblion Blwyddyn 12 Ysgol Llanhari ar ennill dwy brif wobr yng nghystadleuaeth Cynllun Addysg Beirianneg Cymru am eu prosiect. Enillon nhw. £50 yr un a £300 i'r Ysgol.

# Ysgol Creigiau

**Eisteddfod yr Urdd**
Llongyfarchiadau i bawb fu'n cystadlu yn yr Eisteddfod Sir yn ddiweddar. Fe fydd y canlynol yn cynrychioli'r ysgol yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn y Bala dros wyliau'r Sulgwyn: Abigail Green - llefaru unigol ail iaith Bl. 5 a 6, Megan Jones - llefaru unigol ail iaith Bl 3 a 4, Grŵp Llefaru Bl 6 ac iau, Grŵp Llefaru ail iaith, Parti Deulais a'r Côr. Pob lwc i bawb!

**Cystadleuaeth Rygbi'r Urdd.**
Fe gafodd y bois amser gwych yn cystadlu yn nhwrnament Rygbi'r Urdd yng ngerddi Pontcanna cyn gwyliau'r Pasg. Roedd yn ddiwrnod braf i daflu pêl ac roedd Mr Ivins yn hapus iawn gydag ymdrechion caled y bechgyn. Wedi 5 gêm galed, roedd y bechgyn wedi blino'n lân, ond, yn bwysicach na dim, roeddent wedi cael diwrnod i'w gofio. Diolch Mr Ivins am roi cyfle i'r bois.

**Y Tîm Pêl-rwyd.**
Yn dilyn eu llwyddiant yn y rownd gyntaf, fe chwaraeodd tîm pêl-rwyd yr ysgol yn rownd derfynol cystadleuaeth Cymdeithas Pêl-rwyd Cymru. Roedd y safon yn uchel dros ben ac roedd y tîm yn falch iawn o fod wedi cael y cyfle i chwarae mewn cystadleuaeth o'r fath. Diolch i Mrs Stone a Mrs Hussy am eu hyfforddiant.

**Ffrâm ddringo Newydd**
Wedi hir aros, mae e yma! ........... ffrâm ddringo newydd! Mae wedi ei hadeiladu fel estyniad i'r cwrs antur sydd eisioes gennym. Mae pob dosbarth wedi cael bod yn fwnciod bach ar y ffrâm ac yn edrych ymlaen yn awchus at bob cyfle i ddringo. Diolch i Gyfeillion yr Ysgol am weithio'n ddi- flino i godi arian er mwyn ei gwneud hi'n bosib i ni gael y ffrâm.



Plant yr ysgol yn mwynhau ar y ffrâm ddringo newydd.

# GILFACH GOCH

*Gohebydd Lleol:*
*Betsi Griffiths*

**Bwrdd Ymgynghorol Ieuenctid**



Llwyddodd Twm Draper, 16 oed, i gael lle ar Fwrdd Ymgynghorol Ieuenctid y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar ar ôl cael cyfweliad ym Mryste yn ddiweddar.

Bydd Twm, sydd yn byw yn Cambrian Avenue, yn cael cyfle i ymgyrchu dros a chodi proffil pynciau sydd yn effeithio ar blant byddar. Ddydd Llun 19eg o Fai, i nodi dechrau Wythnos Ymwybyddiaeth y Byddar, bydd Twm yn ymuno â grwp yn y Senedd i gefnogi'r lansiad "Fy Iechyd Fy Mywyd", adnodd a gynhyrchwyd gan y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar i wella profiadau gofal iechyd plant a phobl ifanc byddar.

Bydd Twm yn aros ar y Bwrdd am 18 mis ac yn ystod y cyfnod bydd e'n cwrdd ag aelodau eraill o'r Bwrdd o bedwar ban Prydain a Gogledd Iwerddon. Bydd y Bwrdd yn gweithio ar ymgyrch newydd dros y misoedd nesaf.

"Dw i wedi derbyn llawer o gymorth oddi wrth Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar Cymru dros y blynyddoedd. Nawr mae gen i siawns i roi rhywbeth yn ôl trwy fy ngwaith ar y Bwrdd. Mae'n gyfle i wneud gwahaniaeth a helpu plant a phobl ifanc byddar," meddai Twm. Gweler:
http://tinyurl.com/NDCS-Cymru
http://tinyurl.com/NDCS-YAB



**Priodas Arian**
Llongyfarchiadau i Clair Gwiliam ac Andrew Draper ar ddathlu eu pen-blwydd priodas arian ddydd Mawrth, 29 Ebrill. Buon nhw'n dathlu yng nghwmni teulu a ffrindiau yn y Crown Inn yn Llanilltud Faerdre.

# TONYREFAIL

*Gohebydd Lleol:*
*Helen Prosser*
671577/prosserh@btinternet.com

**Prysurdeb y Cylch Meithrin**
Cafwyd llawer o hwyl yn y Cylch Meithrin wrth i'r plant ddathlu'r Pasg yn eu hetiau lliwgar.



**Gweddnewid Eglwys Dewi Sant**
Llongyfarchiadau i'r Parchedig Ruth Moverley a'i phwyllgor diwyd iawn sydd wedi llwyddo i gael grant o £208,000 o gronfa'r Loteri er mwyn gweddnewid yr eglwys a'i gwneud yn fwy addas ar gyfer grwpiau cymunedol. Mae'r ficer yn awyddus iawn i sicrhau bod y gymuned yn gwneud defnydd llawn o'r eglwys a'r digwyddiad nesaf i gael ei gynnal yna fydd noson Peter Karrie a thalentau lleol nos Wener, 16 Mai am 7.30pm. Mae tocynnau (£7 yr un) ar gael o'r siop 'Have I got news for you' neu wrth y drws ar y noson.

**Clwb Rygbi**
Braf yw adrodd mwy o hanes y tymor hwn gyda'r tîm ieuenctid - yn anffodus colli yng ngêm derfynol Cwpan Cymru wnaethon nhw yn Stadiwm y Mileniwm nos Wener 25 Ebrill yn erbyn Penallta ond yn fuddugol yng ngêm derfynol Cwpan yr Ardal ym Mhenygraig nos Fercher 30 Ebrill yn erbyn Beddau. Dwy gêm wych gyda chefnogaeth arbennig gan bobl ein cwm ac nid yw'r tymor wedi diweddu iddynt eto gyda gêm derfynol arall i chwarae sef y Merit Table ac wrth gwrs ar frig ennill y gynghrair. Llongyfarchiadau a diolch mawr i'r hyfforddwyr Robert Morgan, Paul Crump a David Roberts.

Yn anffodus collodd yr ail dîm yng ngêm derfynol Cwpan Ifor Williams.

Buddugoliaeth da i'r tîm cyntaf yn ddiweddar yn erbyn Ynysybwl.

# CREIGIAU

Gohebydd Lleol:
Nia Williams
029 20890979



**Ymdrech fawr Megan – a'i theulu a'i ffrindiau!**

'Fy enw i yw Megan Clements, ac fe fyddaf yn seiclo 200 milltir o Lundain i Baris yn ystod mis Mehefin eleni. Pwrpas y daith fydd codi arian at Ymgyrch Cancr y Fron. Fy nharged fydd codi £950 tuag at yr achos.

Byddwn yn ddiolchgar iawn pe baech yn fodlon fy helpu i godi'r swm hwn drwy fy noddi ar - Virgin Money Giving page at http://uk.virginmoneygiving.com/MeganClements Bydd unrhyw gyfraniad yn cael ei werthfawrogi yn fawr iawn!'

Bellach mae Megan yn fyfyrwraig ym Mhrifysgol Nottingham yn astudio physiotherapy. Buodd yn ferch athletaidd ar hyd ei gyrfa ysgol – gan chwarae llawer o bêl-rwyd a nofio – ond bellach mae hi'n wynebu sialens go fawr ac yn ymuno â chriw o fyfyrwyr yn ei phrifysgol sy'n paratoi ar gyfer y sialens feicio fawr yma fydd yn cychwyn yn St. Pancreas ac yn gorffen ger y Tŵr Eiffel. Bu Megan a'i Mam yn hynod brysur dros ben-wythnos y Pasg yn trefnu bore coffi heb ei ail! Welsoch chi'r rioed y fath wledd! A rhai ohonom ddigon ffodus i ennill cacen ar y raffl! Y bore wedyn aeth y ddwy yn dalog i sêl cist car – i godi mwy o arian ac i werthu cacen neu ddwy oedd ar ôl! Felly mae'r codi arian wedi dechrau o ddifri chwarae teg ac os oes rhywun am noddi Megan fe welwch gyfeiriad y wefan uchod – neu 'dw i'n siwr na fyddai Megan yn gwrthwynebu cyfranaiadau drwy'r drws! Pob lwc Megan a'r criw i gyd! Cawn yr hanes ymhen y mis! Cadwch yn ddiogel!

**Pencampwyr Rygbi dan 10 Caerdydd a'r Fro 2014**

Llongyfarchiadau mawr i dîm rygbi dan 10, Pentyrch ar ddod yn fuddugol yn nhwrnament rygbi Caerdydd a'r Fro eleni! Tipyn o gamp bois! I fyny bo'r nod ac ymlaen â chi yn hyderus i'r tymor newydd - ar ôl cael hoe haeddiannol, wrth gwrs!

Diolch i Wiliam Thomas-Jones, Jac Davies, Jac Harries, Connor Dunne a Hari Samuel am eu hatebion gonest i'r





cwestiynau isod!

**1. Beth yn union 'ych chi newydd ennill – under 10s?**
'Twrnament district Caerdydd a'r Fro!'
'Odd cael y twrnament adre yn help mawr i ni - cawsom ddefnyddio'r ystafelloedd newid - felly o'n ni allan o'r gwynt a'r glaw am unwaith!'

**2. Sut deimlad oedd ennill?**
'Teimlad da a hapus' - Jac Harries
'Sioc' - Jac Davies
'Trist dros y tîm arall - achos o' nhw wedi colli' - Connor
'Emosiynol - am ennill ein twrnament cynta erioed' - Wiliam

**3. P'un oedd gêm galeta'r tymor eleni?**
'Abercynon - yn twrnament St. Peter's' (Connor, Jac H, Wiliam)
'Llandaf' - (Hari)
'Rumney' (Jac D)

**4. Beth yw cryfderau tîm dan ddeg Pentyrch eleni?**
Hari'n dweud bod y **taclo** yn dda, Wiliam yn dweud fod **rhedwyr da** yn y tIm a'r ddau Jac yn credu bod y tIm yn dda am gadw ***possession***!

**5. Beth am y tîm hyfforddi/y trefnwyr/y swyddogion? Oes rhywbeth yr hoffech ddweud wrthyn nhw tybed?**
'Maen nhw wedi'n helpu ni ennill y twrnament - hebddyn nhw bydde' ni ddim wedi ennill. Nhw sydd wedi hyfforddi ni sut i chwarae. Ni'n ddiolchgar iawn am holl help yr hyfforddwyr a'r trefnwyr.'

**6. Beth yw'ch gobeithion chi i'r dyfodol? Fydd 'na daith haf? Twrnameintiau efallai?**
'Ennill twrnament Luctonians a cheisio ennill y 'district' eto blwyddyn nesa'.

**Cydymdeimlad**

Gyda thristwch y cofnodwn farwolaeth sydyn ac annisgwyl Huw Pritchard, Parc y Coed, ganol mis Ebrill. Bu Huw yn bennaeth ar yr adran Gymraeg yn Ysgol Gyfun Bryncelynnog, am flynyddoedd lawer cyn ymddeol. Hoffai deithio a threulio ei aeafau yng nghynhesrwydd Sbaen neu debyg. Roedd yr gerddwr brwd ac yn gymdeithaswr difyr. Estynnwn ein cydymdeimlad i deulu a chyfeillion Huw. Cynhaliwyd y gwasanaeth angladdol yn Eglwys Groesfaen ar y 24ain o Ebrill.

**Penblwydd arbennig!**

Anfonwn ein cyfarchion i un o ddarllenwyr brwd yTafod wrth iddo ddathlu penblwydd go arbennig ym mis Mai! Penblwydd hapus iawn Mr Heddwyn Richards pan y daw - joiwch y dathlu!

**Babi newydd!**

Ar y 26ain o Fawrth yn Ysbyty'r Waun, ganwyd Elen Gwyn, merch i Anna a Stuart Townson, Penarth, wyres i Marian a Dilwyn Jones a chyfnither newydd i Matthew, Andrew, David, Manon a Ffion. Llongyfarchiadau mawr a chroeso i'r byd Elen fach!




## Pentyrch
(Tudalen 8)

## Llantrisant
(Tudalen 6)



Ifan Roberts gafodd y fraint o redeg i'r maes gyda'i arwr Gethin Jenkins



Anna Glyn yn cwblhau ei marathon gyntaf ym Mharis



Priodas Danielle Griffiths, a Gethin White, Tonysguboriau,

Dros y Pasg bu Côr Godre'r Garth ar daith i Ynys Manaw. Dydd Llun cynhaliwyd cyngerdd awyr-agored yn Milntown House.



Roedd y plasdy yn berchen i un o deulu Dafydd Idris o Dreforus (Tudalen 15)





Sara Pickard gyda Damon Hill yn y Tŷ Cyffredin.



Gill Griffiths, Llywydd Cenedlaethol Merched y Wawr, yn annerch cinio Llywydd y De.



Swyddogion Papurau Bro yr ardal fu'n trafod datblygiadau mewn cyfarfod a drefnwyd gan Megan Jones ar ran Llywodraeth Cymru. Rhes gefn: Marged Thomas, Tom Price, Luned Evans, (Yr Hogwr), Heini Gruffudd (Wilia), Gareth Richards, (Llais a Gwasg Morgannwg). Rhes flaen: Penri Williams (Tafod Elái), Gwilym Roberts, Bryan James (Y Dinesydd), John Evans (Llais).

# EFAIL ISAF

*Gohebydd Lleol: Loreen Williams*

**Cyngerdd**
Cafwyd cyngerdd amrywiol iawn ei naws yng Nghapel y Tabernacl nos Iau, Ebrill 3ydd. Trefnwyd y cyngerdd gan aelodau Côr yr Einion. Diolch i Llinos Swain am gamu i'r adwy yn absenoldeb Siân Griffiths, arweinydd Côr yr Einion. Siân Elin oedd y cyfeilydd a hi hefyd fu'n cyfeilio i'r unawdydd Trystan Francis a ganodd dair o ffefrynnau'r gynulleidfa. Cafwyd amrywiaeth o eitemau diddorol gan Ysgol Gynradd Garth Olwg, yn ddeuawdau ar y delyn, unawd, deuawd a pharti deusain. Daeth disgyblion ifanc Ysgol Maes y Bryn a chanu caneuon o'r Sioe Oliver yn afieithus a chawsom ddwy eitem o lefaru a dwy gân werin ganddynt hefyd. Dechreuodd cyfraniad Ysgol Gyfun Garth Olwg gyda deuawd safonol ar y delyn gan Eleri Roberts a Branwen Roberts. Cafwyd datganiad pwerus o gân o'r sioe "les Miserables" gan Carys Jones a pherfformiad llawn asbri o ganeuon eu Cân Actol gan grŵp o blant blwyddyn 9. Cyflwynwyd y noson yn ddeheuig iawn gan Nia Williams. Trosglwyddwyd elw'r noson o £850 i'r Ystafell Fyw yng Nghaerdydd ac fe ddaeth Wynford Ellis Owen, cyfarwyddwr Yr ystafell Fyw i ddiolch i'r gynulleidfa am eu cefnogaeth ac i roi braslun o waith y fenter. Diolch arbennig i Beti Treharne, cadeirydd Côr yr Einion, am ei gwaith diflino'n trefnu'r noson.

**Gwellhad Buan**
Da deall fod Eirian Rees yn parhau i wella a chryfhau wedi dod adref o'r ysbyty. Gobeithio y byddwn yn gallu ei groesawu'n ôl i'r Tabernacl cyn bo hir.

**Genedigaeth**
Mae Carol Hardy wrth ei bodd yn cael croesawu ŵyr bach i'r teulu. Ganwyd Ellis Siôn yn fab i Daniel a Becci yn ddiweddar. Brawd bach annwyl i Callie-Beth.

**Diolch**
Hoffai Carey a minnau ddiolch i bawb am eu dymuniadau da, anrhegion a'u cyfraniadau hael iawn adeg dathlu ein Priodas Aur. Byddwn yn gallu cyflwyno dros fil o bunnoedd i goffrau Cymorth Cristnogol. Diolch o galon i chi gyd.

**Y TABERNACL**
**Apêl Haiti**
Diolch i Sara a Geraint Wyn Davies am agor drws eu cartref i'n croesawu i Fore Coffi, Sadwrn, Mawrth 22ain. Daeth nifer lluosog o'u ffrindiau ac aelodau'r Tabernacl ynghyd a chodwyd y swm anrhydeddus o £353 tuag at Apêl Haiti.

**Cwis a Chawl**
Nos Sadwrn, Ebrill 5ed trefnwyd Noson o Gwis a Chawl yn Neuadd y Pentref gan Heulyn a Catrin a'u ffrindiau. Tomos Morse oedd y Cwis Feistr a chodwyd dros £300 tuag at Gymdeithas Alzheimers.

**Priodas**
Llongyfarchiadau i Eleri Evans ac Ian Minton ar eu priodas yng Nghapel y Tabernacl ddydd Sadwrn, Ebrill 12fed. Gweinyddwyd y seremoni gan Geraint Rees a'r organydd oedd Carey Williams. Mi ddarllenodd Lisa Jones, un o'r morynion y darn "Mi gerddaf gyda thi" ac mi roddodd Tirion Welsby, cyfnither Eleri, ddatganiad cerddorol ar y piano tra roedd y pâr ifanc yn arwyddo'r gofrestr. Roedd Eleri a'i brawd Alun yn aelodau selog o Deulu Twm ar un adeg.

**Merched y Tabernacl**
Fore Mercher, Ebrill 9fed aeth nifer o aelodau Merched y Tabernacl ar daith i Lanelli. Roedd yn fore heulog braf ac roedd yn hyfryd gweld cannoedd ar gannoedd o blant yr Ysgolion lleol yn gorymdeithio drwy'r dref i Jambori i gefnogi'r Eisteddfod genedlaethol. Cawsom goffi a theisen yn y Caffi yn Nhŷ Llanelly cyn cael ein tywys o amgylch yr adeilad gan Sara. Roedd gwaith aruthrol wedi ei wneud i adfer y tŷ i'w stad wreiddiol. Cawsom gyfle i wylio ffilm yn dangos cyflwr echrydus yr adeilad cyn i'r gweithwyr ddechre ar y gwaith. Gwelsom lestri drudfawr a oedd yn perthyn i deulu'r Arglwydd Stepney yn cael eu harddangos yn un o'r 'stafelloedd. Tywyswyd ni i ben uchaf y tŷ ar hyd grisiau serth a chael hanes un o'r morynion a fu farw o dan amgylchiadau amheus. Ai trwy hunanladdiad neu lofruddiaeth y daeth ei bywyd ifanc i ben? Pwy a ŵyr?

Ymlaen â ni wedyn i Westy'r Sosban i fwynhau cinio a sgwrs ddiddorol cyn troi am adre.

Ein cyfarfod nesaf fydd sgwrs gan Beca Lewis Jones yng Nghanolfan y Tabernacl, fore Iau, Mai 8fed am hanner awr wedi 10 y bore.

**Llongyfarchiadau**
Llongyfarchiadau i Elenid Jones ar ddod yn fam-gu unwaith yn rhagor. Ganed Anwen Maelle i Dyfan a Morgane ym Mharis, ond bydd y teulu bach yn dychwelyd i Fiji ym mis Mehefin lle mae Dyfan yn gweithio gyda'r Cenhedloedd Unedig.

Llongyfarchiadau hefyd i Geraint a Rhiannon Price ar enedigaeth wyres fach arall. Croeso i Elen Rhiannon, merch i Llinos a Neil, a chwaer fach i Mai.

**Trefn yr oedfaon ar gyfer mis Mai.**
Mai 4ydd. Oedfa Gymun yng ngofal aelodau Meisgyn, Tonyrefail a Llantrisant.
Mai 11eg. Oedfa Cymorth Cristnogol.
Mai 18fed. Geraint Rees
Mai 25ain. Allan James


Menter Iaith Rhondda Cynon Taf

01443 407570
www.menteriaith.org

**Trip diwrnod i Ŵyl Lenyddiaeth Dinefwr** Ddydd Sadwrn 21ain Mehefin

Dewch gyda ni ar daith i Ŵyl Lenyddiaeth Dinefwr. Diwrnod hyfryd i'r teulu cyfan

Bydd y bws yn gadael Canolfan Dysgu Gydol Oes Gartholwg am 9:00yb. Byddwn yn stopio hefyd yn Aberdar am 9:30yb – *Lleoliad Aberdar i'w gadarnhau. Croeso mawr i bawb!

Tocynnau:
*Mae'r prisiau yma i gyd yn cynnwys pris y bws.
Oedolyn - £35. Plentyn: 6-16oed - £10
Plentyn Ifanc: 0-5 oed – £5
Bydd angen i chi archebu tocynnau trwy'r Fenter naill ai wrth ffonio'r swyddfa ar 01443 407570 neu wrth ddanfon ebost at
catrinreynolds@menteriaith.org

**Cynllun Chwarae'r Fenter**
Ar y 14eg i 17eg o Ebrill cynhaliwyd Cynllun Pasg Menter Iaith Rhondda Cynon Taf. Roedd y Cynllun yn un llwyddiannus a llawn gweithgareddau cyffrous i blant ac roedd pawb wedi mwynhau'r achlysur diolch yn fawr iawn i bawb oedd wedi cymryd rhan. Cofiwch os wnaethoch fwynhau cynllun Pasg, fydd cynllun haf yn rhedeg rhwng 21ain o Orffennaf i 15fed o Awst felly bydd angen bwcio o flaen llaw dewch yn llu!.

Ffoniwch swyddfa'r Fenter ar 01443 407570

# LLANTRISANT GROESFAEN MEISGYN

Gohebwyr y mis: Enid a Geraint Hughes

**Llantrisant a Crecy yn Gefeillio**

Yn dilyn trafodaethau rhwng cynghorau'r ddwy dref, mae cynlluniau ar gyfer llofnodi 'Siarter Cyfeillgarwch' wedi eu cwblhau. Mae gwahoddiad wedi ei anfon i Crecy yn gwahodd dirprwyaeth i ddod i Lantrisant dros benwythnos Gŵyl Ddewi 2015. Yn ystod y penwythnos yma gobeithir cynnal cyngerdd mawreddog gyda nifer o gorau lleol yn cymryd rhan . Bydd dirprwyaeth o Lantrisant yn ymweld â Crecy ar gyfer eu Gŵyl Ganol Oesol yn ystod mis Awst 2015.

Yn ystod y misoedd nesaf bydd y cyngor yn gwahodd gwahanol fudiadau a chymdeithasau yn yr ardal i'w hannog i gysylltu â grwpiau cyffelyb yn Crecy er mwyn iddyn nhw allu cymryd mantais o'r cysylltiadau sy wedi eu sefydlu drwy'r cytundeb yma.

Dywedodd Julie Barton, Cadeirydd y Cyngor, "Mae Cyngor Cymuned Llantrisant yn hynod o falch bod Crecy-en-Ponthieu wedi cytuno i arwyddo'r Siarter Cyfeillgarwch. Mae cysylltiadau rhwng y ddwy gymuned yn mynd yn ôl i'r Canol Oesoedd. Rydyn ni'n gobeithio y bydd y cytundeb yn ddechreuad a fydd yn sicrhau bod cymuned heddiw yn ymwybodol o'r cysylltiadau hanesyddol ond yn bwysicach fyth i greu hanesion newydd o gyfeillgarwch ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol."

**Diwrnod mawr Ifan** (Llun tudalen 4)

Dim bob dydd mae rhywun yn cael y cyfle i wireddu ei freuddwyd ond i un cefnogwr rygbi brwd o'r Groes-faen digwyddodd hynny'n ddiweddar. Ifan Roberts gafodd y fraint o redeg i'r maes gyda'i arwr Gethin Jenkins (a chymydog iddo yn y Groes-faen) fel masgot tîm y Gleision yn eu gêm gynghrair yn erbyn Ulster .

Pump oed yw Ifan ac mae'n amlwg bod y traddodiad rygbi teuluol wedi gafael yn dynn ynddo. Ei dad-cu yw'r cyn-ddyfarnwr a'r sylwebydd, Alun Wyn Bevan ac mae ei ewythr Trystan yn aelod o dîm hyfforddi'r Gleision.

Peidiwch â synnu os welwch chi Ifan eto'n arwain y tîm i'r maes ar Barc yr Arfau - yn ôl y gwybodusion hon oedd gêm orau'r Gleision yn y Gynghrair eleni wrth iddyn nhw guro Ulster o 28-23! Llun tudalen 4

**Doethuriaeth**

A llongyfarchiadau i fodryb Ifan – Elen Robert gynt o Faes yr Haul ar ennill doethuriaeth o Brifysgol Caerdydd. Ieithyddiaeth yw ei phwnc ac enillodd ei gradd ar waith ar agweddau cwmnïau a sefydliadau tuag at eiriau Cymraeg yn y gweithle.

**Swydd gyntaf**

Llongyfarchiadau i Mia James, Despenser Avenue ar ei phenodiad yn athrawes yn Ysgol Panteg, Torfaen. Hon fydd swydd gyntaf Mia a bydd yn ymgymryd â'i dyletswyddau ym mis Medi ar ôl cwblhau cwrs ôl-radd yng Nghaerdydd. Pob lwc iddi hi.

**Priodas yn Nghyprus** (Llun tudalen 4)

Priodwyd Gethin White, mab Steve a Margaret White Tonysguboriau, gyda Danielle Griffiths, merch Mervyn a Pamela Griffiths o Dalysarn, ar y 29ain o Fawrth draw ar Ynys Cyprus. Aeth y teulu a'r ffrindiau agos draw i ddathlu gyda nhw a chafwyd diwrnod bendigedig. Gwnaeth Huw Davies ac Ifan Glyn, y ddau was priodas eu gwaith yn wych ac roedd Dora merch fach Gethin a Danielle wrth ei bodd gyda'r holl sylw. Yn ystod y wledd darllenwyd englyn i'r ddau :

Yn hyfryd daeth serch cyfrin - i droi gwên
Dora Gwawr a'i chwerthin
I Danielle yn hud hen win
I'w neithior hi a Gethin.

Mae Gethin a Danielle wedi ymgartrefu ym Mrynsadler ers sawl blwyddyn bellach. Gweithia Gethin i Gyngor Gofal Cymru ac mae Danielle yn gweithio i CBAC. Pob dymuniad da i'r ddau. Llun tudalen 4

**Hefyd…**

Dymuniadau gorau i Gerwyn White (brawd Gethin), yn ôl gartre bellach yn dilyn cyfnod byr yn yr ysbyty.

**Croeso…**

... i Jac a anwyd ar Ebrill 1af yn 8 pwys a hanner. Mae'n frawd bach i Cian ac yn fab i Tomos Israel a Michelle, Tonysguboriau. Mae ei fam-gu a'i dadcu, Sue a John, yn falch iawn a hen dad-cu Noele Israel wrth ei fodd gyda'r newydd- ddyfodiad. Croeso mawr i Jac.

**Dathliad Dwbl!**

Bu cryn ddathlu yn Portreeve Close dros wyliau'r Pasg. Roedd yn ben-blwydd go arbennig i Geraint Price ac roedd yna barti syrpreis wedi ei drefnu ar ei gyfer. Ond y syrpreis mwyaf oedd ymweliad cwbl annisgwyl Nia, merch Geraint, a'i gŵr Simon, yr holl ffordd o Hong Kong ar gyfer yr achlysur.

Ond nid dyna ddiwedd y dathlu! Dydd Sul y Pasg, ganwyd Elen Rhiannon, 9 pwys 2 owns, merch i Llinos a Neil, chwaer fach i Mia ac wyres i Geraint a Rhiannon. Cyrhaeddodd jyst mewn pryd i Nia a Simon roi cwtsh mawr iddi hi cyn iddyn nhw ddychwelyd am Hong Kong!

Tipyn o ddathliad! Llongyfarchiadau i'r teulu i gyd!

Colofnydd mis nesa: Glenys Roberts
Ebost: groberts@btinternet.com
Ffôn: 01443 228196

# Ysgol Pont Siôn Norton

**Pêl-droed yr Urdd**

Cafwyd llawer o hwyl wrth i ferched a bechgyn blwyddyn 5 a 6 gymryd rhan yng nghystadleuaeth yr Urdd ar Ebrill 28ain. Diolch i Mrs Cotter a Mr Chinnock am eu hyfforddi.

**Eisteddfod Y Bala**

Llongyfarchiadau i Curig Williams, Lewis Williams, Matthew Jones, Nye Codd Davy a Morgan Jones am ddod yn gyntaf gyda'r ymgom yn yr Eisteddfod Sir. Pob lwc iddynt wrth deithio i Y Bala ar gyfer Eisteddfod yr Urdd.

**Priodasau!!**

Llongyfarchiadau i Miss Alexis Barnard ar ei phriodas cyn y Pasg- Croeso i Mrs Houldey!

Llongyfarchiadau i Miss Kirsty Thomas ar ei phriodas ar ôl y Pasg- Croeso i Mrs Jeffreys!



# Ysgol Gynradd Gymunedol Gymraeg Llantrisant



**Gwersi Beicio**
Fe gafodd grwpiau o Flwyddyn 6 gyfle i gymryd rhan mewn gwersi beicio yn yr ysgol yn ddiweddar. Allan o'r ddau grŵp mawr fu wrthi ar y diwrnod cyntaf, fe ddewiswyd grŵp llai ar gyfer mynd allan tu hwnt i ffiniau'r ysgol, ar yr ail ddiwrnod. Roedd hi'n ddiwrnod braf ac roedd pawb wrth eu boddau.

**Eisteddfod yr Urdd**
Llongyfarchiadau mawr i'r canlynol a fydd yn cynrychioli'r sir yn Eisteddfod yr Urdd Y Bala cyn hir: Y Côr, Y Parti Unsain, Y Parti Deulais, Ensemble Lleisiol, Luke James (Unawd Blynyddoedd 5 a 6), Alys Thomas (Unawd Blynyddoedd 3 a 4) a Luke James ac Alys Thomas (Deuawd dan 12 oed). Pob lwc i bob un ohonynt.

**Eglwys Bethel, Pontyclun**
Ar ddiwrnod olaf mis Mawrth fe aeth deugain o ddisgyblion Blwyddyn 6 ar ymweliad ag Eglwys Bethel ym Mhontyclun, er mwyn cymryd rhan mewn gweithdai gwahanol ar y Pasg. Roedd cyfle i'r disgyblion wylio clipiau ffilm amrywiol, yn ogystal â mynd o ystafell i ystafell er mwyn dysgu am y digwyddiadau arweiniodd at groeshoeliad yr Iesu. Cyn dychwelyd i'r ysgol, cafodd bawb fara a gwin er mwyn cofio am hyn ddigwyddodd. Fe ddaeth yr ymweliad â stori'r Pasg yn fyw i'r disgyblion ac roedd pawb wedi mwynhau'n fawr.

**Storiwr**
Ar y pedwerydd o Ebrill, fe ddaeth y storiwr proffesiynol, Michael Harvey i'r ysgol i adrodd chwedlau wrth ddisgyblion yr Adran Iau. Cafodd wrandawiad arbennig ac roedd y plant wrth eu boddau'n ymuno i mewn ar adegau.

**Ymweliad amgylcheddol**
Ar y trydydd o Ebrill fe ddaeth Ms Emma Douglas sef swyddog prosiect "Coity Wallia Commons Biodiversity Enhancement" atom i sôn am y bywyd gwyllt sydd o'n cwmpas. Roedd y disgyblion yn gyffrous iawn wrth gael y cyfle i weld rhai o'r creaduriaid bychain yn ogystal â chael y cyfle i holi cwestiynau am fywyd gwyllt yr ardal.



**Ymweliad â'r ffatri siocled**
Ar y 27ain o Fawrth, fe aeth disgyblion Blynyddoedd 1 a 2 ar ymweliad â'r ffatri siocled yn Abertawe. Yno, cawsant gyfle i ddysgu sut mae siocled yn cael ei gynhyrchu – o'r ffeuen goco i'r siocled gorffenedig. Roedd cyfle iddynt flasu'r siocled hefyd wrth gwrs!

**Chwaraeon**
Ar y seithfed ar hugain o Fawrth fe ddaeth disgyblion Ysgol Gymraeg Tonyrefail atom er mwyn cymryd rhan mewn gŵyl chwaraeon ar gaeau'r ysgol – roedd tîmau o Flynyddoedd 4, 5 a 6 yn cystadlu mewn gemau rygbi, rygbi tag a phêl droed. Y diwrnod canlynol, fe glywsom ein bod wedi derbyn MarcActif gan y Cyngor Chwaraeon. Mae MarcActif Cymru yn cefnogi ysgolion sy'n ymrwymo i ddatblygu addysg gorfforol a chwaraeon o fewn yr ysgol.

Ar y 4ydd o Ebrill aeth tîm o ferched o'r ysgol i gystadlu mewn cystadleuaeth bêl-droed, gan lwyddo i fynd drwyddo i'r rownd nesaf – da iawn chi, ferched!

Ar y nawfed o Ebrill, cynhaliwyd rasys trawsgwlad yr Urdd yn Ysgol Gyfun Llanhari. Dyma rai canlyniadau:
Blynyddoedd 3 a 4: Aled Willan (2il), Tomi Edwards (3ydd), tîm bechgyn (1af)
Blwyddyn 5: Gruff Morgan (2il), Scott Davies (3ydd), tîm bechgyn (1af), Siwan Ellis (3ydd), tîm merched (1af)
Blwyddyn 6: Gethin Evans (1af), tîm bechgyn (1af), Ella Porter (3ydd)

**Seren y Dyfodol?**
Tua mis yn ôl, fe es i i Glasgow yn Yr Alban er mwyn cystadlu mewn cystadleuaeth canu a dawnsio o'r enw "Sport Relief Does Glee Club" , sef cyfres deledu ar CBBC. Pan gyrhaeddais maes awyr Glasgow, roeddwn i'n teimlo'n hynod o nerfus, ond erbyn i mi gyrraedd y gwesty, roeddwn yn fwy cyffrous na nerfus!

Y diwrnod nesaf, roedd y rownd gyn-derfynol ac roedd pump grŵp ar ôl a ninnau'n un ohonynt. Erbyn diwedd y dydd, roedd tri grŵp wedi'u dewis, sef A-List, MT13 a Musicality (sef y grŵp roeddwn i'n rhan ohono).

Ar ein diwrnod olaf yn Glasgow, roedd y rownd derfynol. Roedd rhaid i bawb fynd â'u cesys gyda nhw i'r stiwdio a dyma'r caneuon canon ni a'r ddau grŵp arall: canodd A-List "Thousand Years", canodd MT13 "Lost in Music" a caneuon ni "Impossible" gan James Arthur. Ni enillodd ac mae gennym nawr dlws enfawr sydd yn cael ei gadw yn nhŷ David, arweinydd ein grŵp. Byddaf i'n cofio'r profiad hwn am byth.

gan Luke James, Dosbarth 13

**Raffl Pasg**
Llongyfarchiadau i bawb fu'n ddigon ffodus i ennill wyau Pasg yn raffl Pasg y Gymdeithas Rieni eleni eto.

# TONTEG

*Gohebydd Lleol:*
*Gill Williams*

Llongyfarchiadau i Laura Unett a James Perks, 4 Leyland Close, Tonteg ar eu dyweddïad ar ddydd Sul y Pasg sef diwrnod pen-blwydd Laura.

Llongyfarchiadau i Carys Davies y "Dell" Tonteg, ar ol iddi ymddeol ar ddiwedd mis Chwefror Mae Carys ac Elwyn wedi mwynhau ambell i wyliau, a llawer mwy i ddod dw i'n siwr. Dymuniadau gorau i'r ddau.

**Marwolaeth**
Estynnwn ein cydymdeimlad I David a Janet Rowlands a'r Teulu ar farwolaeth mam David yn Abergwaun ddechrau mis Ebrill, ar ol salwch hir.

**Cydymdeimlad**
Estynnwn gydymdeimlad dwys i Jan a Roger Lewis a'r bechgyn y Ridings Tonteg ar fawolaeth tad Jan.

**Yr Ardd**
Ganol mis Ebrill a ninnau ma's yn yr ardd yn mwynhau prynhawn heulog, clywsom gri aderyn, ac o edrych lan canfod barcud coch yn troellu o gwmpas uwchben y "Dell" Tonteg. Dyma'r tro cyntaf I in weld un mor agos I gartre. Ai crwydryn oedd hwn/hon tybed? Neu ydyn nhw wedi dechre ymsefydlu yn yr ardal?

# PENTYRCH

*Gohebydd Lleol:*
*Marian Wynne*

**Marathon Paris**
Llwyddodd Anna Glyn i gwblhau ei marathon gyntaf yn ddiweddar. Er mwyn cyflawni ei nod fe fentrodd dros y dŵr i brifddinas Ffrainc ar Ebrill y 6ed. ‘Roedd tua hanner can mil yn rhedeg ym Mharis y diwrnod hwnnw ac ‘roedd Anna wedi ymuno efo'r criw oedd yn amcanu gorffen y ras mewn pedair awr a hanner. Drwy lwc ‘roedd hi'n ddiwrnod braf ond ddim yn rhy boeth ac fe wnaeth Anna groesi'r llinell derfyn mewn pedair awr ac ugain munud. Llongyfarchiadau mawr iddi!

**Cydymdeimlad**
Chwith cofnodi fod un arall o drigolion gwreiddiol Pentyrch wedi'n gadael. Ganed a maged Mrs Louie Williams, Graig Goch, yn y pentref, ac un o'r pentref hefyd oedd ei diweddar ŵr, John. Bu Mrs. Williams ar un adeg yn gweithio i'r Gwasanaeth Sifil, (yr HMSO) yng Nghaerdydd ac roedd hi'n un o ffyddloniaid hen gapel y Mission Hall ym Mhentyrch. ‘Does ond ychydig wythnosau ers i ni nodi marwolaeth ei chymydog agosaf, Ieuan Christopher, un arall fu'n cadw'r achos hwnnw ar agor. Yn achos y ddau angladd, gwelwyd nifer o wynebau cyfarwydd brodorion gwreiddiol Pentyrch ymhlith y galarwyr.

Bu angladd Mrs Williams yng Nghapel Y Wenallt, Amlosgfa Caerdydd, ar Ebrill 9fed. Mae Ruth, merch Mrs Williams, a'i phriod, Selwyn, yn byw yng Ngwaelod-y-Garth. Estynnwn ein cydymdeimlad â hwy a'r wyrion a'u teuluoedd.

**O’r Tŷ Cyffredin i Efrog Newydd**
Wythnos (arall!) i’w chofio.

‘Roedd yr wythnos Mawrth 17-21 yn wythnos codi ymwybyddiaeth am Syndrom Down ym Mhrydain, gyda’r pwyslais eleni ar Iechyd. Ers rhyw flwyddyn mae Sara Pickard wedi bod yn rhan o gynllun peilot gan y Gymdeithas Syndrom Down yn ymwneud â llyfryn iechyd. Cymaint oedd llwyddiant y cynllun fel y penderfynwyd lawnsio’r llyfryn mewn digwyddiad yn Nhŷ’r Cyffredin ar Fawrth 18 a gofynnwyd i Sara annerch y cyfarfod fel un a oedd wedi defnyddio’r llyfryn dros gyfnod o rai misoedd. Fe’i cyflwynwyd i’r gynulleidfa gan Damon Hill, y cyn-yrrwr ceir Formula 1, ac ‘roedd nifer o aelodau seneddol, arbenigwyr meddygol ac ambell arglwydd yn bresennol. Ar




ddiwedd y sesiwn rhoddodd Jeremy Hunt AS, yr Ysgrifennydd Iechyd, sêl bendith y llywodraeth ar y Llyfryn Iechyd.

Yna ... ar ddydd Iau Mawrth 20, dyma Sara a chyd-weithiwr o’r Gymdeithas Syndrom Down yn hedfan i Efrog Newydd oherwydd ar y diwrnod canlynol ‘roedd hi’n Ddiwrnod Syndrom Down y Byd ac ‘roedd y llyfryn iechyd yn cael ei arddangos mewn cynhadledd ‘Iechyd a Lles – Hygyrchedd a Chydraddoldeb i Bawb’ (Health and Wellbeing – Access andEquality for All) yng Nghanolfan y Cenhedloedd Unedig. Unwaith eto dyma

Sara’n annerch cynulleidfa eang o bobol o bob cwr o’r byd, ac yn ffodus iawn ‘roedd yn bosib i’w rhieni ac eraill weld yr holl beth yn fyw ar y we – profiad anhygoel a byth gofiadwy i bawb. Yn anffodus, ‘roedd yn rhaid gadael y gwesty am 4 o’r gloch y bore wedyn er mwyn hedfan yn ôl adre, ond am brofiad unigryw yn coroni wythnos hynod o gyffrous.

Mae hyn yn glod aruthrol i Sara, a nawr - ble nesa? Gwyliwch y golofn hon am y bennod nesa’ - Nairobi ym mis Mehefin ar gyfer Cynhadledd Cynhwysiad Cenedlaethol. Pob hwyl i ti Sara a llongyfarchiadau ar dy waith gwych.

Mae’n siwr bod holl brofiadau diddorol Sara wedi bod yn help mawr i’w mam Shân wella ar ôl cyfnod yn yr ysbyty.

**Cinio Llywydd Merched y Wawr**
Ddiwedd mis Mawrth aeth cynrychiolaeth o Gangen y Garth i Ginio’r Llywydd Cenedlaethol yng Ngwesty Parc y Stradey. ‘Roedd y lle dan ei sang wrth i ryw 300 o aelodau ymgynnull ar gyfer yr achlysur.

Bydd cyfnod hynod lwyddiannus Gill Griffiths fel ein llywydd cenedlaethol gweithgar yn dod i ben ym mis Awst ac ‘roedd hwn yn gyfle i roi teyrnged iddi am ei gwaith diflino dros y mudiad. Mewn araith bwrpasol soniodd Gill am bwysigrwydd MYW i’n hiaith a’n diwylliant a chyfeiriodd at yr hyn sydd wedi’i wneud i hyrwyddo “Drama, Dysgwyr a Daioni” yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae’r ymgyrch gwerthu bagiau wedi codi rhyw £20,000 i helpu merched yn Ethiopia!

Cafwyd adloniant o safon gan John Ogwen a Maureen Rhys yn goron ar brynhawn hynod o bleserus.

## Glan y Môr

**Cyfres Cynefin**
**Bethan Wyn Jones a Iolo Williams**

Dyma’r ail lyfr yng nghyfres Cynefin. Mae hwn yn lyfr i blant ac oedolion sy’n trafod cynefin difyr glan y môr – yr anifeiliaid, yr adar, y pryfetach, ymlusgiaid, amffibiaid, pysgod, molusgiaid, cramenogion, cen, planhigion, gwymon a chregyn.

Telir sylw i nodweddion gwahanol fathau o draethau, clogwynni ac aberoedd Cymru. Esbonir llawer o bethau difyr gan gynnwys, sut mae llanw a thrai yn digwydd, nodweddion gwananol leiniau’r traeth, beth sy’n digwydd dan yr wyneb yn y tywod a holl gyfoeth pyllau glan môr.

Mae’r cyfrol yn llawn ffotograffau, deiadramau a darluniau lliw llawn deniadol.

Pris: £6.99. Gwasg Carreg Gwalch
ISBN: 978-1-84527-422-1

**Genedigaeth**
Llongyfarchiadau gwresog i Morgane a Dyfan Jones ar enedigaeth Anwen Maelle ym Mharis ar Ebrill 14eg. Yn ffodus ‘roedd Elenid draw yno i ddathlu geni ei hwyres fach newydd. Maes o law, bydd Dyfan a Morgane yn mynd yn ôl i Fiji lle mae Dyfan yn gweithio i’r Cenhedloedd Unedig. Dymunwn yn dda iddynt fel teulu bach.

**Clwb y Dwrlyn**
Caryl Parry Jones fu’n diddanu Clwb y Dwrlyn ym mis Ebrill. Daeth tyrfa dda i Glwb Rygbi Pentyrch i wrando arni hi a’i hofferynwyr - Geraint Cynan ar yr allweddellau a Christian Phillips ar gitâr, ynghyd â Myfyr Isaac, a oedd wrthi yn rheoli’r system sain. Cyflwynodd Caryl ddetholiad o ganeuon, rhai yn hen ffefrynnau ac eraill – megis Adre – yn newydd sbon. Rhwng y caneuon cafodd y gynulleIdfa gyfle i gwrdd â rhai o’r cymeriadau lliwgar sy’n ymddangos ar ei chyfres deledu megis y chwaraewr rygbi Cameron Jenkins a’r ferch ysgol Ffion Carlton Lewis, ac elwa ar eu doethinebau er mawr ddifyrrwch i bawb. Ni ellid ond edmygu a gwerthfawrogi ehangder talentau Caryl a daeth y noson i ben yn llawer rhy gyflym. Diolch i Caryl a’r offerynwyr am noson fendigedig.

# Blodau Gwanwyn, Blodau Gwyn.

(Noson gyda Myrddin ap Dafydd yng Nghylch Cadwgan)

Mae Myrddin ap Dafydd yn medru bod yn ysgytwol ac yn gynnes yr un pryd; un funud yn heriol, ddychanol, a'r funud nesaf yn hiraethus, gartrefol. A phan fydd yr emosiynau hynny'n digwydd o fewn yr un gerdd, mae'n hawdd deall pam ei fod yn un o oreuon y Gymru gyfoes. Ei fawredd yw ei feistrolaeth ar ei grefft ar y naill law, a'r fflach o ddychymyg annisgwyl ar y llaw arall. Ond y tu hwnt i hynny fe welwn ni anwyldeb y bardd gwlad wedi ei blethu gyda sylwgarwch y bardd natur. Ychwanegwch ergydion geiriol y rebel gwrth-filitaraidd a gwirebau'r sylwedydd egwyddorol, a dyna ddechrau adnabod gwaith Myrddin ap Dafydd. Ac fe gawsom ni ddogn helaeth o hyn i gyd pan ddaeth atom i'r Ganolfan yn Efail Isaf.

Roedd y lle dan ei sang, ac efallai y dylem fod yn ymfalchïo yn y ffaith fod bardd yn medru llenwi neuadd heb na raffl na bar na chamera teledu o fewn golwg. Yn annisgwyl iawn, Myrddin ap Dafydd ei hun gafodd ei synnu gyntaf, oherwydd cyn iddo godi ar ei draed i draethu, cafwyd datganiad cerddorol gan y parti merched o'i gerdd gofiadwy "Glyn Rhosyn." Afraid dweud, efallai, mai cnewyllyn yr hen "Ferched y Garth" oedd yn cyflwyno'r gerdd, a hynny'n effeithiol tu hwnt o dan arweinyddiaeth Llinos Swain.

Roedd ymateb Myrddin yn werthfawrogol wrth iddo egluro y byddai gweddill y noson yn parhau â'r un thema, gyda'r pwyslais ar flodau wrth iddo ein tywys drwy daith y "blodau gwanwyn, blodau gwyn", sef teitl ei gasgliad a gyhoeddwyd y llynedd. Un o nodweddion y gyfrol honno yw'r lluniau blodau ar ddechrau pob adran, a'r nodiadau difyr gan yr awdur yn rhoi gwybodaeth ychwanegol am rai o'r cerddi. Parodd y lluniau i un hen wag ddisgrifio'r llyfr fel "Blodeugerdd un dyn!" Yr hyn a gawsom ni oedd sgwrs yn ymhelaethu ar y nodiadau hyn, yn egluro'r cyd-destun yma ac acw, ac yn paentio darlun llawn bywyd o rai o'r cymeriadau a'r digwyddiadau a roes fod i'r cerddi.

Ond roedd yna ddanteithion ychwanegol, megis y gerdd a gyfansoddodd y bore hwnnw yn ystod ei siwrnai blygeiniol o Eifionydd i Gaerdydd, a diddorol eithriadol hefyd oedd hanes ei daith hyd feysydd y gad yn Yr Alban. Yno, cawsom hanes arwyddocâd patrymau'r tartan, a'n hatgoffa am bobl falch yn cael eu herlid o'u cartrefi i fodloni chwant y gormeswyr.

Gorchwyl anodd yw meddwl am rai cerddi unigol i sôn amdanyn nhw, gan fod i bob un a glywsom ar y noson ei rhinwedd a'i hapêl ei hun, ond roedd y cyfuniad o sylwadau'r bardd a chynnwys y gerdd ei hun yn gofiadwy mewn ambell i achos. Mae dyn yn dal i chwerthin wrth gofio am y cyflwyniad o'r gerdd "Cyfarwyddiadau cyfoes" sy'n sôn am y cynghorion gor-amlwg a di-angen pan fydd rhywun yn prynu nwyddau dros y we y dyddiau hyn. Y cyfarwyddyd i beidio â bwyta'r pecyn silicon mewn blwch yn dal printar a ysgogodd y gerdd, a phan fo rhywun yn rowlio chwerthin yn braf at dwpdra'r cynhyrchwyr, daw'r ergyd ddeifiol i sobri pob un ohonom: "Ar ôl ymgyrchu ar hyd y canrifoedd maith / a llwyddo i ennill grym swyddogol i'r iaith, / Oes rhaid eich atgoffa i'w rhoi hi rŵan ar waith?"

Mae'r dychan yr un mor ddeifiol yn y gerdd "Y Gamp Olympaidd" sy'n dwyn i gof fel roedd y gwleidyddion a'r darlledwyr yn clochdar fod y briwsion a ddaeth i Gaerdydd o Gêmau Olympaidd 2012 wedi rhoi Cymru ar y map. Ac wrth iddyn nhw ail adrodd y geiriau hyd syrffed, roedden nhw'n methu gweld mai enw dinas Llundain oedd ar bob baner a phob arwydd y tu cefn iddyn nhw.

Ond rhag i neb feddwl mai noson o wamalu a chreu chwerthin yn unig oedd hon, fe gafwyd cydbwysedd ardderchog yn nwyster cerddi megis "Tynnu Llo" a "Mustar Ffrensh". Mae'r darlun o'r berthynas rhwng y gwladwr a byd natur, - a hynt y tymhorau mewn geni a marw - yn ysgytwol o dda yn hanes y llo yn cael ei eni ar fferm Dôl Gam. Ac fe erys y ddelwedd yn y cwpled olaf yn y cof am amser maith: "Arafwn, a'r machlud yn ein llygaid, a dyna pryd / Y tynnir, yn erbyn yr haul, lo bach i'r byd."

Anwyldeb o fath gwahanol sydd yn y darlun o'r cymydog yn ei gadair olwyn wiail, y "Mustar Frensh", llawn dirgelwch i blentyn teirblwydd yn strydoedd cefn Llanrwst. Er gwaetha'r broblem iaith rhyngddyn nhw, roedd y ddau'n dipyn o ffrindiau, a Myrddin yn awyddus i gael tro ar ganu'r gloch ar y gadair. Yn anffodus, bu camddealltwriaeth fel roedd yn ymestyn ei law fach am y gloch, a daliwyd ei fysedd yn yr olwyn gocos oedd yn gyrru'r tsaen, nes gorfod cael wyth ar hugain o bwythau. Ac i brofi bod y stori'n wir, cawsom i gyd weld bys cam y bardd o Lwyndyrys.

Daeth y noson i ben gyda cherdd ddirdynnol yn sôn am y modd gwaradwyddus y bu i lywodraeth Prydain drin trigolion ynys Diego Garcia yng Nghefnfor India. Rhwng 1968 a 1973, gorfodwyd y ddwy fil o drigolion i symud i Mauritius a'r Seychelles er mwyn i'r Unol Daleithiau gael codi canolfan filwrol yno. A hyd y dydd heddiw mae'r alltudion yn ceisio cael ail feddiannu eu gwlad eu hunain. Fel y gellid disgwyl, roedd cerdd Myrddin ap Dafydd ar y pwnc yn ysgytwol, a chylch y noson yn gyflawn wrth iddo gloi, fel y dechreuodd, gyda hanes am frodorion yn colli'r tir dan eu traed i drachwant estroniaid.

Emlyn Davies

## CORNEL Y PLANT




Rhwng 26 Mai – 31 Mai 2014, bydd Eisteddfod yr Urdd yn cael ei chynnal ger Y Bala, Meirionnydd.

Mae dros 15,000 o blant a phobl ifanc yn cystadlu yn yr Eisteddfod yn canu, dawnsio a pherfformio.

Mae'r cystaldu yn digwydd yn y pafiliwn. Hefyd mae stondinau lliwgar a gweithgareddau ar gyfer y teulu cyfan – o feiciau modur, dringo a sesiynau chwaraeon i ffair, bandiau byw a sioeau plant gyda chymeriadau teledu.




Lliwiwch y pethau y dylech bacio wrth fynd am ddiwrnod i'r Eisteddfod.

# tafod elái

***GOLYGYDD***
***Penri Williams***
***029 20890040***

***HYSBYSEBION***
***David Knight 029 20891353***

***CYHOEDDUSRWYDD***
***Colin Williams***
***029 20890979***

Cyhoeddir y rhifyn nesaf
ar 6 Mehefin 2014
Erthyglau a straeon
i gyrraedd erbyn
24 Mai 2014

**Y Golygydd**
Hendre 4 Pantbach
Pentyrch
CF15 9TG
Ffôn: 029 20890040
e-bost
pentyrch@tafelai.net

*Tafod Elái ar y wê*
**http://www.tafelai.net**

***Argraffwyr:***
**Gwasg Morgannwg**
**Castell Nedd SA10 7DR**
**Ffôn: 01792 815152**

***Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru***



**Gwasanaeth addurno, peintio a phapuro**

**Andrew Reeves**

**Gwasanaeth lleol ar gyfer eich cartref neu fusnes**

**Ffoniwch**

**Andrew Reeves**
**01443 407442**
**neu**
**07956 024930**

**I gael pris am unrhyw waith addurno**




## CLWB Y DWRLYN

**Taith Gerdded yn Ystradfellte**

**Gyda Alun Wyn Bevan**

Dydd Sadwrn, Mehefin 14

Am ragor o fanylion,
ffoniwch: 029 20890040

## MERCHED Y WAWR

**Cangen y Garth**

**'Pontrhydyfen'**
**Atgofion**
**Wil Davies (Rondo)**

**yn y Ganolfan,**
**Efail Isaf**
**8yh Mai 14eg**

Am ragor o fanylion,
ffoniwch: 029 20891577

## 'GWYN' yng Ngarth Olwg

Fis Mehefin eleni, bydd Cwmni'r Frân Wen yn mynd a'r cyfieithiad Cymraeg cyntaf o ddrama arobryn Andy Manley, WHITE, a gynhyrchwyd yn wreiddiol gan Gwmni Catherine Wheels o'r Alban i Bontypridd.

Bydd Bryn Fôn a Rhodri Sion yn cyflwyno plant i fyd natur prydferth gwyn lle mae lle i bopeth a phopeth yn ei le.

Bywydau syml a threfnus sydd gan y ffrindiau yn GWYN. Maen nhw'n byw mewn pabell wen ac yn gofalu am y tai adar o'u cwmpas. Bob dydd, mae'r ffrindiau'n sicrhau fod eu byd prydferth a threfnus yn parhau'n ddisglair a gwyn. Ond, tybed beth fydd yn digwydd pan fydd lliw yn ymddangos am y tro cyntaf? Coch ... melyn ... ac yna glas. Sut wnaiff y ffrindiau ddygymod â'r newid byd?

"Mae GWYN yn berfformiad hudolus braf, sy'n cynhesu'r galon!" meddai Iola Ynyr, Cyfarwyddwr Artistig Cwmni'r Frân Wen.

"Gwelais y perfformiad am y tro cyntaf yng Nghynhadledd Theatr Plant a Phobl Ifanc Copenhagen yn 2011. Cefais fy nhgyfareddu gan ddyfnder emosiynol y cynhyrchiad. "



Angharad Tomos sydd yn gyfrifol am gyfieithiad chwareus yn ei defnydd o eiriau sy'n siwr o apelio at gynulleidfa ifanc. Er mai drama cyfrwng Cymraeg yw GWYN, bydd pecyn geirfa syml ar gael. Mae GWYN yn cynnig profiad theatrig cyntaf hudolus i blant ac yn eu grymuso i feddwl am liw mewn ffordd newydd.

Nifer cyfyngedig o berfformiadau sydd ar gael felly cyntaf i'r felin!
10/06/14 Canolfan Gartholwg, Pontypridd 10.30am a 1.30pm

I archebu tocynnau: ffoniwch 01443 219589
Manylion y daith ar gael http://sioegwyn.com/newyddion/

## CAPEL SALEM TONTEG

Eglwys newydd
"Messy Church Gŵyl Hwyl"
ym Mhentre'r Eglwys a Tonteg

Beth sy'n digwydd yn y capel? Crefftau, straeon, drama, cerddoriaeth, pryd o fwyd blasus, a llawer a llawer o hwyl ... croeso i "MESSY CHURCH GŴYL HWYL", cydfenter newydd Capel Salem Tonteg a Phlwyf Llanilltud Faerdref. Dyn ni'n croesawu pobl o bob oedran i'n dathliad dwyieithog. Cynhelir y dathliad unwaith y mis, dydd Gwener cyntaf y mis.

Bydd y dathliad yn dechrau am 4 yp, ond croeso i chi ddod yn syth ar ôl yr ysgol. 2 Mai: Eglwys St Illtud, Pentre'r Eglwys, 4-6 yp, Rev'd Philip Gullidge (01443 202538). 6ed Mehefin: Capel Salem Tonteg, 4-6 yp, Rev'd Rosa Hunt (01443 206353). Croeso cynnes i bawb.

**Bore Coffi i'r dysgwyr**

**yng Nghaffi Leekes, Tonysguboriau, bob bore Gwener o 11 hyd hanner dydd. Croeso cynnes i chi ymuno â'r criw.**

# YSGOL UWCHRADD PONTYPRIDD

(Lluniau tudalen 17)

Gohebydd ysgol: Lauren Staple

Llongyfarchiadau i Georgia Davies blwyddyn 10, aelod o dîm dawns RSD aeth i Nottingham ar 29 a 30 Mawrth i gystadlu yn yr ICC Cheer and Dance National Championship. Dawnsiodd Georgia gyda'r grwp Jazz a Junior Pom a daeth y tîm yn gyntaf yn y ddau gystadleuaeth.

Ddechrau mis Ebrill ffeindiodd 4 o ddisgyblion Ysgol Uwchradd Pontypridd eu hunain yn y llys – ond nid am droseddu!! Aeth Jude Owen, Sophie Jenkins, Anne-Marie Whatley a Megan Watts i Lys Penybont i weld beth sy'n digwydd mewn diwrnod gwaith yna. Cawson nhw'r gyfle i eistedd mewn ar ychydig o achosion, wedyn gwylion nhw fideo o achosion "ffug" ac roedd rhaid iddynt benderfynu ar y dyfarniad. Cafodd y pedwar eu cloi mewn cell hefyd – jest am y profiad wrth gwrs!

Ar ddiwedd tymor y Gwanwyn gadawodd Mr Hywel Gronw ei swydd fel cynorthwyydd dysgu yn yr ysgol. Yn ddiweddar gweithiodd Hywel fel rhan o dim E3 yr ysgol hefyd a roedd e'n aelod poblogaidd o'r staff. Eleni trefnodd ddau gwrs penwythnos yn Llangrannog, un i flwyddyn 7 a'r llall i flwyddyn 8 a chafodd y plant amser rhyfeddol yna. Bydd plant cyfnod allweddol 3 a staff yr Adran Gymraeg yn gweld ei eisiau'n fawr iawn.

Ddechrau mis Ebrill aeth criw o ddisgyblion blwyddyn 7 i Langrannog gyda Mr Gronw, Mrs Evan-Jones a Miss Wall. Mwynheuodd pawb y profiad yn fawr iawn a roedd y plant wrth eu boddau yn cymryd rhan yn y gweithgareddau i gyd er gwaetha'r tywydd gwael.


Cawson ni ein Eisteddfod flynyddol gyda chyfnod allweddol 3 ar ddiwedd tymor y Gwanwyn. Fel arfer roedd llawer o gystadlaethau a llawer iawn o hwyl. Gwelon ni gystadlaethau canu, actio, offerynnol, dawnsio. Ymwelodd Mr Urdd â'r Eisteddfod a roedd rhaid i aelodau bob llys fynd ar y llwyfan gyda'r arweinydd llys i wneud dawns Mr Urdd. Ar ddiwedd y dydd enillodd Maritime ond roedd pawb wedi gwneud cyfraniad arbennig.

I ddiddanu'r plant rhwng cystadlaethau yn ystod Eisteddfod yr Ysgol gwnaeth Mr Bracey (technoleg gwybodaeth) fideo o'r athrawon yn perfformio o gwmpas yr ysgol. I weld mwy ewch ar y ddolen yma http://youtu.be/-77Ta2RmptE

# CROESAIR COL

## Dyma gyfle arall i chi ennill Tocyn Llyfrau

Enillydd croesair Ebrill yw,
Mrs Siân Webb, Pont-y-clun



**Ar Draws**
3. Hylifau (7)
7. Llyffant melyn (5)
8. Defaid bach (3)
10. Bwyd â starts (4)
11. Wedi ei felltithio (8)
13. Ymlusgiaid hir (6)
15. Cyfamodi (6)
18. Sypyn (6)
20. Gwawdio (6)
24. Golwg (8)
26. Enynfa (4)
28. Ubain (3)
29. Wynwyn (5)
30. Gweithdy gwyddonydd (7)

**I Lawr**
1. Celficyn (6)
2. Y weithred o strancio (6)
3. Eglwys (3)
4. Ieuengaf (5)
5. Tra (4)
6. Gwyniau (6)
9. Gwrthod mynd (5)
12. Abwydyn sy'n sugno gwaed (4)
14. Draw (3)
16. Tir yng nghanol môr (4)
17. Wybren (3)
18. Rhuo (5)
19. Cryf (6)
21. Gwas offeiriad (6)
22. Cywiro (6)
23. Dyn Doeth (5)
25. Chwît (4)
27. Rhagor (3)

**Atebion i: Croesair Col**
**34, Pen Bryn Hendy, Yr Encil, Meisgyn, Pontyclun. CF72 8QX**
**erbyn 20 Mai 2014**

## Atebion Ebrill

| | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | G | R | A | T | | H | O | N | C | I | O |
| C | | L | | N | | | | R | | I | | E |
| A | T | A | L | F | A | | P | O | N | C | E | N |
| R | | S | | A | | A | | H | | I | | |
| B | A | G | E | D | Y | N | | I | F | O | R | I |
| W | | O | | | | E | | A | | | | S |
| N | Y | CH | | C | O | L | Y | N | | C | W | B |
| C | | | | R | | I | | | | R | | R |
| L | A | B | R | O | | A | C | A | D | E | M | I |
| | | Y | | P | | D | | CH | | D | | S |
| C | Y | W | A | I | R | | C | W | T | O | G | I |
| A | | Y | | A | | | | Y | | A | | O |
| LL | Y | D | A | N | U | | C | N | A | U | | |

## LLE SAFF I SIARAD YNG NGHYMRU

Mae hunanladdiad yn fater iechyd cyhoeddus ac yn anghyfartaledd cymdeithasol. Mae'r Samariaid wedi bod yn allweddol wrth ymdrin â hyn ers i'r mudiad gael ei sefydlu yn 1953. Ar gyfartaledd mae mwy na 300 o bobl yn lladd eu hunain yn flynyddol yng Nghymru, ac mae'r elusen yn gwneud popeth posib i gefnogi'r rhai sy'n mynd drwy gyfnodau anodd ac yn beryg o ladd eu hunain.

Y llynedd fe lwyddodd ychydig dros 600 o wirfoddolwyr y Samariaid mewn naw cangen yng Nghymru i ateb bron 140,000 o alwadau.

Yn 2009 sefydlwyd llinell Gymraeg i'r rhai hynny sy'n dymuno siarad â'r Samariaid yn eu mamiaith. Rhai o'r elfennau cyffredin sy'n bynciau trafod wrth siarad â'r Samariaid ydi straen gwaith, bod yn ddi-waith, problemau ariannol, helbulon teuluol a phroblemau perthynas personol.

Mae llinell Gymraeg y Samariaid yn agored rhwng 7 ac 11 bob fin nos ar 0300 123 3011

# Bethlehem, Gwaelod-y-garth

Ar ran aelodau a chyfeillion Bethlehem, Gwaelod-y-garth ein dymuniadau gorau i'n Gweinidog, y Parchedig R Alun Evans, wedi iddo dderbyn triniaeth yn yr ysbyty yn ystod mis Ebrill. 'Rydym yn deall ei fod yn cymeryd camau cadarnhaol o ddydd i ddydd, ac yn diolch am ofal y teulu drosto wrth iddo wella.

**Trefn yr Oedfaon** (ar y Sul am 10:30 a.m. oni nodir yn wahanol) **:**

Mis Mai 2014:
4ydd Oedfa Cymorth Cristnogol
11fed Oedfa dan ofal yr aelodau – Hoff Emynau
18eg Oedfa Ardal – Gorllewin Caerdydd – Hefin Mathias
25ain Oedfa gymun dan ofal y Parchedig Dafydd Owen

Mis Mehefin 2014:
1af Parchedig Aled Edwards
8fed I'w drefnu
15fed Oedfa Ardal - Pentyrch
22ain I'w drefnu
29ain Oedfa gymun dan ofal y Parchedig Robin Samuel

Mae'r Pasg drosodd am flwyddyn arall – gobeithio'n wir eich bod wedi cael cyfnod o fwynhad a phleser dros yr ŵyl.

Bu'n gyfnod prysur mewn capel ac eglwys, gan gynnwys yma ym Methlehem ac yn ddiau mewn llawer Bethlehem arall ym mhob cwr o'r byd.

Mae 'na rhyw naws arbennig ar fore Gwener y Groglith, ac mae 'na gyferbyniad amlwg wedyn yn yr oedfa ar Sul y Pasg. Mae'r tempo yn newid, mae'r gerddoriaeth yn newid, mae'r geiriau'n goleuo, ac mae 'na godi calon. Ac er fod 'na Sul y Pasg Bach yn dilyn, ar i fyny y mae pethau yn ddios o hynny 'mlaen.

Un peth sy'n drawiadol yng nghyfnod y Pasg ydi'r sylw yn y wasg i faterion yn ymwneud a chrefydd ac a Christnogaeth.

Ac wrth reswm mae 'na ddau Sant newydd wedi eu cyflwyno i'n byd ni gan y Pab yn Rhufain – dau o'i ragflaenwyr yn y swyddogaeth honno, sef Ioan Pawl yr Ail o wlad Pwyl, a Ioan y Trydydd-ar-hugain.

Ond yn ôl a ni at y wasg Brydeinig – beth ddigwyddodd tybed?

Wel yn y lle cyntaf dyna Brif Weinidog Prydain, David Cameron, yn datgan yn y "Church Times" fod Prydain yn wlad Gristionogol. Wn i ddim yn bendant beth oedd ei fwriad na'i gymhellion i ddweud y fath beth, yn enwedig o gofio mai i mewn ac allan o ffydd a chred yr oedd o ei hun, ac hefyd o gofio rhagflaenydd iddo'n cael ei gynghori gan ei Gynghorydd Arbennig "i beidio a gwneud Duw!"

Ond beth bynnag dweud wnaeth o, ac yna derbyn beirniadaeth , go lem yn wir o ambell i gyfeiriad, am ddweud y fath beth oherwydd yn bennaf goblygiadau negyddol i wleidyddiaeth a chymdeithas fel eu gilydd. Creu rhwyg nid cymodi fyddai'r fath ddatganiad yn ol llythyr yn y wasg a lofnodwyd gan 50 o anffyddwyr amlwg a dylanwadol (gan gynnwys y Dr Iolo ap Gwynn).

"Tydi Prydain ddim angen i grefyddau na hunaniaeth grefyddol gael blaenoriaeth gan eu llywodraeth etholedig" meddent.

Yn sgil y datganiad bu Archesgob Caergaint, Justin Welby yn blogio, gan synnu at yr ymateb, a chynnig ei bod yn ffaith hanesyddol bod ein moeseg, ein cyfraith a threfn, ein gwerthoedd cymdeithasol, ein ffordd o ddidoli yr hyn sy'n deg, ein hamddiffyn o'r tlawd - bod y rhain i gyd wedi eu siapio gan ac yn seiliedig ar Gristnogaeth. Fe ychwanegodd sefydlu'n hysbytai a'n hysgolion, ein llenyddiaeth, celfyddyd, cerddoriaeth a diwylliant i'r pair yn ogystal.

Cydnabu serch hynny nad oedd y ddelwedd o "wlad Gristnogol" yn cael ei adlewyrchu yn nhermau mynd i'r capel a'r eglwys, ond yr oedd yn bendant fod iaith yr hyn ydym, yr hyn yr ydym a gofal ohono, a'n ffordd o ymateb, wedi ei wreiddio'n ddwfn yn ein Cristnogaeth ni.

Ychydig ddyddiau'n ddiweddarach, wele ragflaenydd Welby yn swydd Archesgob Caergaint, sef Rowan Williams, bellach yr Arglwydd Williams o Ystumllwynarth, yn mynnu bod Prydain mwyach yn wlad "ôl-Gristnogol" er ei fod yn credu for "meddylfryd diwyllianol" Prydain o hyd yn "eithaf cryf o blaid Cristnogaeth.".

Serch hynny yn ei ôl ef mae'r cyfnod addoli eang a rheolaidd ar ben, ac mai dirywio fydd dylanwad yr eglwys o hyn allan.

"Mwyach ni ellir cymryd yn ganiataol fod addoli yn rhan o brofiad mwyafrif y boblogaeth – tydi Prydain ddim yn wlad o gredinwyr Cristnogol."

"A tydi pobl o dan 45 mlwydd oed" meddai "ddim ar un gafael ar gefndir Cristnogol i wrthsefyll y newid yma"

Be newch chi o'r uchod? Ydi'r negeseuon yn glir, neu ydi'r wasg unwaith yn rhagor wedi llwyddo i gorddi'r dyfroedd dros y Pasg. Trafodwch!

# Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd

Fel arfer yn y nodiadau hyn byddwn yn bwrw golwg yn ôl dros y cyfarfod diwethaf, ond nid felly y tro hwn. Nodyn o ddisgwyl sy gen' i parthed ein cyfarfod nesaf, cyfarfod olaf ein rhaglen eleni, sef, nos Lun y 19eg o Fai. Braint fawr i ni fydd croesawu'r Athro Glyn O. Phillips i rannu ychydig atgofion o'i gyfnod yn olygydd y cylchgrawn Y Gwyddonydd. Mae'n siwr y bydd yr anerchiad yn debyg i'r un a draddodwyd ganddo y llynedd yn y Genedlaethol ar achlysur dathlu hanner canmlynedd ers dechrau'r cylchgrawn. Cefais achos yn ddiweddar i dwrio trwy fy rhifynnau i o'r cylchgrawn a synnu a rhyfeddu at safon aruchel ac amrywiaeth cyfoethog cynnwys pob rhifyn, yn anad dim y sylwadau golygyddol o law Glyn ei hun. Yn ddios, er bod treigl y blynyddoedd wedi dyddio rhai cyfraniadau, ar y cyfan mae pob ysgrif yn dal ei werth fel amlinelliad o sylfeini'r ddisgyblaeth dan sylw. Efallai y mwyaf trawiadol, oherwydd nad yw eu hawdur yn wyddonydd, yw rhai T.H. Parry-Williams. Gresyn o'r mwyaf bod ffactorau economaidd wedi peri nad oedd modd parhau gyda'r cylchgrawn o ganol nawdegau'r ganrif ddiwethaf; bu Glyn yn olygydd am tri deg o flynyddoedd. Felly dewch yn llu i wrando ar arloeswr goleuedig yn son am ffenomen llachar ym myd cyhoeddi gwyddoniaeth yn Gymraeg.

Wrth fwrw golwg ar enwau eraill a fu'n gyd-arloeswyr, gwelir R. Elwyn Hughes, Bryn Catwg, Pentyrch gynt. Does dim amheuaeth gen' i fod Elwyn yn haeddu'n diolch am chwarae rhan amlwg yn y gwaith o ddwyn enw Alfred Russel Wallace i sylw'r byd, gan sicrhau bod teilyngdod iddo ysgwydd-wrth-ysgwydd gyda Charles Darwin. Manteisiaf ar y cyfle hwn i ddymuno'n dda i Elwyn sydd wedi dioddef pwl o salwch yn ddiweddar ond sy nawr yn gwella ac yn disgwyl dychwelyd i'w gartref o Ysbyty Llandochau

Neville Evans (0791 325 7371)

Cofiwch cynhelir Ysgol Sul i'r plant bob Sul heblaw am wyliau Ysgol a hynny i gyd fynd ac amser yr oedfa am 10:30a.m. Cofiwch am wefan Bethlehem sydd i'w chanfod ar www.gwe-bethlehem.org. ac am gyfri trydar (twitter). Dilynwch ni ar @gwebethlehem.

# Mae rhyfel yn rhwygo bywydau

### Ond fe allwn ni helpu i'w dwyn ynghyd unwaith eto

I lawer iawn o bobl ar draws y byd, mae erchylltra rhyfel yn rhan o fywyd pob dydd. Ar hyn o bryd, yn sgìl y trais dinistriol yn Syria ac yng Ngweriniaeth Ddemocrataidd y Congo, mae'r bobl a orfodir o'u cartrefi gan ryfel yn cynyddu'n ddyddiol, ac fe amcangyfrifir bod tua 42 miliwn bellach yn wynebu'r sefyllfa yma. Dyna ystadegyn a ddylai ein dychryn ac sy'n staen ar gydwybod y ddynoliaeth.

Mae Wythnos Cymorth Cristnogol eleni (11-17 Mai) yn adrodd storïau rhai o'r bobl hyn, ond yn sôn hefyd am yr hyn sy'n cael ei wneud i'w helpu.

Yn Sudan fe fu'n rhaid i Anoon Aleu ffoi i ogledd y wlad, pan oedd hi'n blentyn, oherwydd y rhyfel cartref gwaedlyd yn y de. Pan ddaeth annibyniaeth i Dde Sudan cymerodd hi a'i gwr, Madut, y penderfyniad anodd i ddychwelyd i'w hen gartref er mwyn creu bywyd newydd i'r teulu. Prin eu bod yn disgwyl i bethau fod yn rhwydd yno, a bu'n rhaid wynebu caledi, prinder a'r profiad dirdynnol o golli mab yn yr wythnos gyntaf yn ôl. Clywodd un o fudiadau partner Cymorth Cristnogol am sefyllfa enbyd y teulu a rhoddwyd nwyddau sylfaenol i'w cynnal dros y tymor byr, ac arian i adeiladu cartref parhaol. Mae cael ei theulu o dan un to yn golygu cymaint i Anoon, 'Gallwn fyw gyda'n gilydd yn ddiogel. Mae wedi rhoi dewrder a gobaith i'm plant.'

Yng Ngholombia mae cymaint â 5 miliwn o bobl wedi eu dadleoli oherwydd gwrthdaro a thrais. Tir yw'r achos pennaf, gyda grwpiau arfog yn gorfodi pobl trwy rym i adael eu tiroedd, er mwyn eu meddiannu ar gyfer y fasnach cyffuriau neu eu gwerthu i gwmnïau mawr. Ymhlith y rhai a effeithiwyd y mae teulu Edile, bachgen 9 oed, a welodd ei dad yn cael ei ladd, cyn iddo orfod ffoi gyda'i fam a'i fam-gu. Maen nhw erbyn hyn wedi cael cartref mewn cymuned newydd, Las Camelias, un o'r 'mannau dyngarol' a sefydlwyd gan fudiad partner Cymorth Cristnogol, o fewn ardaloedd o wrthdaro. Mae'r mannau hyn, sy'n cael eu cydnabod yn swyddogol gan y Llys Iawnderau Dynol Rhyng-Americanaidd, yn cynnig amddiffyniad a diogelwch ac fe wrthodir mynediad i unrhyw un sy'n cario arfau.

Ymosodwyd ar bentref Zanan Bchuck, gogledd Iraq sawl gwaith yn ystod y 30 mlynedd diwethaf. Yn wir yn dilyn un cyrch fomio, fe ddychwelodd y bobl i ddinistr oedd mor llwyr nes eu bod yn anodd adnabod safleoedd cartrefi unigol. Ond gwrthododd y gymuned gael ei threchu a gyda help partner Cymorth Cristnogol mae'r bobl yn llwyddo i drawsffurfio Zanan Bchuck i fod yn gymuned fyw a ffyniannus. Adeiladwyd cronfa ddŵr i gasglu dŵr glaw a phrynwyd pysgod i'w rhoi ynddi, cawsant dai gwydr i dyfu llysiau gwahanol ac anifeiliaid i'w magu. Wedi eu rhyddhau o ofn a gorthrwm mae'r pentref wedi tyfu mewn hyder, ac maent wedi lobïo'r llywodraeth ranbarthol yn llwyddiannus am wasanaethau sylfaenol fel dŵr glan, trydan a ffyrdd. Mae Rohan, merch ifanc ddeallus, yn ymgorffori egni ac optimistiaeth y gymuned, 'Rwy'n hoff iawn o'r awyrgylch yma. Mae popeth (yma) yn fy ngwneud yn hapus.'

Llynedd codwyd dros £500,000 yng Nghymru yn ystod Wythnos Cymorth Cristnogol, arian sydd wedi gallu helpu rhoi bywyd yn rhydd o ofn i Anoon, Edile a Rohan, heb sôn am ddegau o filoedd eraill mewn amgylchiadau tebyg. Rydym yn gobeithio gwella ar hynny eleni, er mwyn helpu llawer mwy.

Os hoffech wybod sut y gallwch chi fod yn rhan o Wythnos Cymorth Cristnogol yn eich ardal, cysylltwch â'ch swyddfa leol ar 029 2084 4646; ebost: caerdydd@cymorth-cristnogol.org neu ewch i www.christianaid.org.uk/cymru/

Gyda'n gilydd gallwn gyrraedd y 42 miliwn o bobl sydd wedi eu dal mewn gwrthdaro, a'u helpu i fyw bywyd yn rhydd o ofn.

Gall £15 dalu am flancedi i blant sy'n ffoaduriaid i'w hamddiffyn rhag oerni'r nos. Gall £40 ddarparu digon o fwyd maethlon a da am fis i ddau blentyn sy'n ffoaduriaid. Gall £150 ein helpu i sicrhau cymorth emosiynol arbenigol i blentyn a ddioddefodd trawma o ganlyniad i'r hyn mae wedi ei weld neu brofi mewn rhyfel.

Robin Samuel



# Ysgol Llanhari

**(Lluniau tudalen 18)**

**Cynhadledd Seicoleg**
Ar y 24ain o Fawrth cafodd disgyblion blwyddyn 12 a 13, sy'n astudio Seicoleg fynychu cynhadledd Seicoleg yn Llundain. Prif siaradwr gwadd y diwrnod oedd y Seicolegydd enwog Dr. Phillip Zimbardo. Bu cyfle i ddisgyblion glywed Zimbardo yn son am ei astudiaethau enwog ar rolau cymdeithasol a'i waith ar y Seicoleg o greulondeb. Hefyd yn bresennol roedd David Wilson sy'n enwog am gyflwyno'r rhaglen "Killers behind bars". Cafodd y disgyblion gyfle i fanteisio ar ei wybodaeth am Seicoleg trosedd a throseddeg.

**Gorymdaith Hetiau Pasg**
Roedd neuadd yr Adran Gynradd yn llawn rhieni a sawl mam-gu a thad-cu Dosbarth Dewi Draenog, Cadi Cwningen a Gwion Gwiwer ar gyfer ein gorymdaith hetiau Pasg flynyddol. Cymdeithason nhw gyda phaned o de cyn gwylio'r plant yn arddangos eu hetiau bendigedig, lliwgar. Diolch i chi rieni am eich cefnogaeth wrth baratoi'r plant ar gyfer y diwrnod arbennig hwn.

**Helfa Wyau Pasg & Disgo**
Diolch yn fawr i 'Ffrindiau Llanhari' am drefnu helfa wyau pasg a disgo ar gyfer yr Adran Gynradd. Cafodd y plant i gyd hwyl yn chwarae a dawnsio, ac wrth gwrs …. yn bwyta wyau siocled!! Mmmmm!!

**Croeso**
Croeso 'nôl i Miss Ryan sydd yn dychwelyd i Ddosbarth Dewi Draenog yn dilyn ei chyfnod mamolaeth. Braf yw dy gael di 'nôl Miss Ryan!

**Drymio Affricanaidd!**
Diolch anferthol i Iolo Whelan a ddaeth i'r ysgol i roi blas i blant yr Adran Gynradd ar chwarae offerynnau Affricanaidd yr wythnos hon! Taron nhw ddrymiau o'r enw 'djembe' a chreu synau a glywir yn y jyngl ….neidr yn hisian, storm yn byrlymu, glaw yn arllwys a broga yn crawcian. Dysgodd y plant hefyd am rhythm wrth ddilyn patrwm clapio. Diolch eto Iolo am brofiad bendigedig!

**Diwrnod Affricanaidd**
Roedd disgyblion yr Adran Gynradd wrth eu boddau yn cyflawni'r gweithgareddau amrywiol a baratowyd ar eu cyfer yn seiliedig ar Affrica er mwyn codi arian ar gyfer mabwysiadu anifeiliaid. Diolch yn fawr iawn am eich cyfraniadau hael! Rydym yn y broses o fabwysiadu'r anifeiliaid!

**Taith Sgio Ysgol Llanhari**
Bu criw o Ysgol Lanhari ynghyd ag Ysgol Treorci i Leysin yn y Swistir i sgio yn ystod gwyliau'r Pasg. Bu'r daith yn hynod lwyddianus gyda phob un yn mwynhau mas draw ac am ddychwelyd blwyddyn nesaf. Roedd sgiwyr o fri ymysg y disgyblion gyda nifer yn digon ddewr i wynebu'r llwybrau duon ar y glacier a chwarae dan ofal eu hyfforddwyr yn y parc eira yn neidio'r rhwystrau a'r ramps. Bu pob un yn ddigon ffodus i lwyddo ar lethr glas ... hyd yn oed Miss Mann a Miss Thomas! Diolch o galon i Mr Aled Evans o Ysgol Cwm Rymni am helpu gyda'r daith ar fyr rybudd ac i Ysgol Treorci am y gefnogaeth, yr hwyl a'r karaoke!

**Cystadleuaeth Athletau'r Sir yn Aberhonddu**
Llongyfarchiadau i'r disgyblion canlynol o Flwyddyn 10 ar eu llwyddiannau yng nghystadlaethau athletau'r Sir ar Ebrill 30ain.
Poppy Sayer - 2ail 100m,, Naid Hir 3ydd
Megan Thomas - 3ydd 100m (13.50 eiliad) 3ydd 200,m ( 29 eiliad)
Alun Lawrence - 2ail Pwysau (11m 22cm)
Iwan Krieger - 5ed yn y Naid Uchel.
Joe Morris - 4ydd 200m (27.8 eiliad)
Laura Keeble - 3ydd 200m a Naid Uchel.

**Ymweliad â'r Theatr**
Nos Iau y 10fed o Ebrill, aethom ni i Theatr Y Grand Abertawe gydag athrawon yr adran Ddrama a'r adran Gerddoriaeth a 40 o ddisgyblion o fl 7-13 i weld cynhyrchiad 'Blood Brothers'. Ar ôl cyrraedd, aethom ni allan i gael bwyd a chael cyfle i grwydro o amgylch Abertawe am ryw awr neu ddwy cyn mynd i'r theatr i weld y sioe. Roedd hi'n gynhyrchiad ardderchog gyda chast anhygoel ac roedd pawb wedi mwynhau mas draw. Gwynfor Dafydd Bl 11

**Dyraniad calon**
Cafodd disgyblion hŷn yr ysgol brofiad gwych yn ddiweddar pan ddaeth un o rieni'r ysgol sef Dr Ellis i mewn i'r Adran Wyddoniaeth i ddarlitho ac arddangos dyraniad o'r galon i ddisgyblion blwyddyn 11,12 a 13.

**Y Gerdd Fawr**
Llongyfarchiadau mawr i Llewelyn Lloyd, Ellie Noble, Ela Edwards a Rhian Clatworthy o Flwyddyn 9 am gael eu pennill wedi ei ddewis i fod yn rhan o 'Y Gerdd Fawr' a drefnwyd gan Fardd Plant Cymru, Aneirin Karadog. Bydd y disgyblion yn recordio'u cyfraniad ar gyfer darllediad detholiad cyntaf o'r Gerdd Fawr ar lwyfan Prifwyl yr Urdd eleni.
***'Llantrisant yw ein cartref ni.***
***Cewch weld ambell i eglwys a'r Bili Wynt.***
***Bydd yr ysbyty yn eich helpu chi***
***A chynhyrchir arian Prydain yn y 'Royal Mint'.'***

**Taith yr Adran Ddaearyddiaeth i Wlad yr Iâ**
Am 4.15 y bore ddydd Gwener yr 11eg o Ebrill, cychwynodd criw o ysgol Llanhari i faes awyr Gatwick gan lwyddo i osgoi unrhyw draffig. Ar ôl hedfan a chyrraedd maes awyr Keflavik a chwrdd gydag arweinydd y daith, Shirley o Aberdeen, a gyrrwr y bws, Dodi, aethom yn syth i ymweld â'r agorfeydd geothermal - llawer o stêm ac arogl cas o sylffwr! Ar ôl cymryd lluniau, aethom i'n ail stop, y lagŵn glas! Ar ôl cael cawod anghyfforddus Ewropeaidd, aethom i mewn i'r lagŵn. Roedd y dŵr yn dwym iawn, a bu pawb yn rhwbio mwd llwyd ar eu cyrff er mwyn gwneud eu croen yn esmwyth! Ar ôl i bawb sychu, i ffwrdd â ni am westy Ork yn Hveragerdi, tuag awr i ffwrdd o'r brif ddinas Reykavik. Roedd y gwesty yn neis iawn, gyda phwll nofio twym tu allan, a chyfleusterau megis tenis bwrdd a bwrdd pŵl i'n diddori.

Ar ôl brecwast y diwrnod wedyn i ffwrdd â ni i Keriŏ i weld crater y llosgfynydd mawr ac wedyn i'r Geiser Centre i weld geiser yn saethu dŵr poeth tua 30 troedfedd i mewn i'r awyr pob 8 munud. Ar ôl hynny aethom i ymweld â Gullfoss, rhaeadr enwocaf Gwlad yr Iâ.

Ar y dydd Sul roedd y tywydd yn hyfryd o sych a heulog, perffaith i weld dau raeadr arbennig - Seljalandsfoss yn gyntaf lle bu rhai yn cerdded tu ôl i lif pwerus y dŵr, a Skógafoss lle gwelom enfys berffaith yn codi allan o'r dŵr o'm blaenau! Golygfa anhygoel. Fe aethom wedyn i ganolfan ymwelwyr yn ymyl llosgfynydd enwog Gwlad yr Iâ sef Eyjafjallajökull, a siarad gyda theulu o ffermwyr a oedd wedi'u heffeithio gan y ffrwydrad yno yn 2010. Ymlaen â ni wedyn i ymweld â Vik sef pentref mwyaf deheuol yr ynys a'r traeth ble cafodd golygfeydd o'r ffilm *Noah* eu ffilmio! Roedd y tywod yn ddu oherwydd yr holl lwch. Gwelsom ni staciau o fasalt ac hefyd esgyrn nifer o bysgod a fu farw ar y traeth. Nos Sul bu pawb yn ddigon lwcus i weld rhywfaint o Oleuadau'r Gogledd, gyda rhai'n llwyddo i gymryd lluniau da ohonynt!

Ar y dydd Llun, y diwrnod cyn i ni ddychwelyd i Gymru, aethom i ffin plât Ewropeaidd Asiaidd a phlât Gogledd America. Gwelsom lawer o graciau mawr yn y tir, lle'r oedd y ddau blât wedi symud i ffwrdd oddi wrth ei gilydd ac achosi daeargrynfeydd! Cerddom trwy grac enfawr yn y tir, lle gwelsom bwll lle'r oedd pobl leol yn arfer boddi gwrachod cannoedd o flynyddoedd yn ôl! Yna teithioom am ryw awr a hanner i'r brif ddinas, Reykavik a chael cyfle i fwyta a mynd i siopa am anrhegion. Daeth y daith i ben gyda chyfle i nofio mewn parc dŵr o fewn y ddinas; parc bach ond sleid dŵr enfawr!

Fyddwn ni byth yn anghofio'r daith anhygoel i Wlad yr Iâ, rydw i'n teimlo'n mor ddiolchgar i'r athrawon am roi cyfle i bawb allu mynd ar y daith arbennig yma!

Gan Carys Jones, Blwyddyn 13.

**Cap Cymru**



Llongyfarchiadau mawr i Owain Ellis o Flwyddyn 11 ar ennill ei gap cyntaf dros Ysgolion Cymru ( dan 16) ddydd Sul, Ebrill mewn gêm ar y Gnoll yn erbyn Lloegr. Mae'r pawb yn falch iawn ohonot Owain!

menter caerdydd

www.mentercaerdydd.org

029 20 689 888

**Lluniau tudalen 18**

**Pasg prysur iawn arall i Fenter Caerdydd**

Diolch i bawb a gymrodd ran yn ein gweithgareddau dros y Pasg – Penwythnos Teulu Llangrannog, Cynlluniau Gofal, Miri Meithrin, Bwrlwm a gweithdai i blant. Mae'r niferoedd sy'n ymwneud â gwasanaethau'r Fenter yn tyfu o flwyddyn i flwyddyn, ac mae'n fendigedig gweld cymaint yn mwynhau! Rydym eisioes yn brysur yn trefnu gweithgareddau'r Sulgwyn, felly ewch i wefan y Fenter am y newyddion diweddaraf! Dyma flas o rhai o weithgareddau'r Pasg….

**Cwis y Mochyn Du**

Bydd cwis nesaf y Fenter yn cael ei gynnal Nos Sul, Mai 25 yn y Mochyn Du am 8pm. £1 y person. Mae croeso cynnes i bawb! Cofiwch bod y cwis ar Nos Sul olaf bob mis.

**Ffônlyfr – Ydych chi'n cynnig gwasanaeth trwy gyfrwng y Gymraeg?**

Ydych chi wedi eich cofrestru ar Ffônlyfr Menter Caerdydd? Rydym yn y broses o adnewyddu'r Ffônlyfr a chynhyrchu copi caled – y cyntaf ers 2011/12. Casgliad cynhwysfawr o fusnesau a chwmnïau sy'n cynnig gwasanaethau yn Gymraeg yng Nghaerdydd yw'r Ffônlyfr, ac mae nifer o fanteision i ymddangos ynddo.

Caiff ei lansio ar y 12fed o Orffennaf yn Tafwyl – digwyddiad sy'n denu dros 14,000 o bobl. Bydd yn cael ei ddosbarthu trwy Pear Communications i dros 100 o weithleoedd a sefydliadau yn y ddinas sydd â chanran uchel o siaradwyr Cymraeg. Cyrraedd dros 12,000 o bobl ar-lein trwy ei hyrwyddo ar Facebook, Twitter ac e-chlysur.

Am bris hynod rhesymol felly gall gwybodaeth am eich busnes neu wasanaeth gyrraedd miloedd o gwsmeriaid posibl.

Byddwn yn clirio'r gronfa ddata ac yn llenwi'r llyfr o'r newydd, felly os ydych yn gwsmer yn barod bydd angen i chi ailgofrestru er mwyn ymddangos yn y llyfryn a pharhau i hysbysebu'ch gwasanaeth ar ein gwefan. Y pris yw £20 i fusnes bach (hyd at 2 o staff) a £35 i fusnesau mwy na hynny.

Er mwyn sicrhau eich bod yn y Ffônlyfr, gyrrwch eich manylion erbyn y 12fed o Fai. Gallwch gofrestru nawr trwy fynd i www.mentercaerdydd.org/ffonlyfr/add

**Cyrsiau Sbaeneg a Ffrangeg newydd i Oedolion**

**Cwrs Sbaeneg ar gyfer eich Gwyliau**

Cwrs 5 Wythnos gyda Sioned Lewis
Yn cychwyn nos Lun, 2il o Fehefin,
7-8.30pm yn Chapter, Treganna - £40

**Cwrs Ffrangeg ar gyfer eich Gwyliau**

Cwrs 5 Wythnos gyda Sioned Vaughan
Yn cychwyn nos Fercher, 4ydd o Fehefin,
7-8.30pm yn Chapter, Treganna - £40

Mae'r cyrsiau hyn wedi eu cynllunio ar gyfer dysgwyr sydd am ddysgu brawddegau a geirfa ddefnyddiol ar gyfer eu gwyliau gan gynnwys cyfarchion, archebu bwyd, gofyn am gyfarwyddiadau, a llawer mwy!

Am ragor o wybodaeth, neu i archebu lle ewch i: mentercaerdydd.org neu cysylltwch â ni:
sarajones@mentercaerdydd.org / 02920 689888

**Fi a Fy Mabi**

Ydych chi, neu ydych chi'n nabod rhywun sy'n feichiog? Beth am gofrestru ar gwrs newydd 'Fi a Fy Mabi'. Bydd y cwrs 6 wythnos, sy'n cael ei gynnal yn Chapter, yn dechrau Nos Fawrth, Mai'r 6ed am 7pm. Bydd cyfleodd i gyfarfod a mamau newydd arall a dysgu am dechnegau tylino babi, cael cyngor gan ymwelydd iechyd, deitegydd a bydwraig am bwydo o'r fron. Bydd cyfle hefyd i ddysgu ffyrdd o ymlacio drwy yoga a reflexology. £42 yw pris y cwrs, ac mae modd cofrestru trwy'r wefan. Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â
marirhys@mentercaerdydd.org

# YSGOL GYNRADD GARTH OLWG

**Lluniau tudalen 19**

Mae Blwyddyn 1 a 2 wedi bod yn dysgu am offerynnau i gyd-fynd â'n thema 'Cerddorfa'. Fe gawson nhw lawer o hwyl yn dysgu am y drymiau a'r delyn, wrth wrando ar gyflwyniadau plant Blwyddyn 6. Hefyd, daeth yr athrawon i'r dosbarthiadau i ddangos eu hofferynnau. Maent wedi ysbrydoli sawl plentyn i gael gwersi yn y dyfodol!

**Eisteddfod**

Llongyfarchiadau i'r plant a gystadlodd yn yr Eisteddfod Sir ym Mhorthcawl. Dyma ganlyniadau'r cystadlaethau…

Llefaru Bl4 ac Iau - Georgia Evans 2il Deuawd - Nia Osborne a Steffan West 2il. Parti Deulais - 3ydd. Parti Unsain - 3ydd. Côr - 3ydd. Ensemble Lleisiol - 3ydd. Alaw Werin - Nia Osborne - 1af. Parti Llefaru - 1af. Ensemble Offerynnol - 1af

Llongyfachiadau i bawb a gystadlodd, a phob lwc i chi a ddaeth yn gyntaf ar gyfer y Genedlaethol.

Da iawn Ffion Devonald (Mary Berry Garth Olwg!) am ennill y gystadleuaeth 'Pobi Pasg' yng Nghanolfan Dysgu Gydol Oes Garth Olwg.

# PONTYPRIDD

*Gohebydd Lleol:*
*Jayne Rees*

**Merched y Wawr**

Dewch i wrando ar Anna Jones, Abersoch nos Iau, Mai 8fed am 7.30 yn Festri Capel Sardis.Ym mis Mehefin fe fydd noson yng nghwmni Meinir Heulyn pan fydd yn trafod a dangos 'Gwisgoedd yn fy ngyrfa fel telynores'.Bydd aelodau'r Gangen yn cwrdd nos Iau, Mehefin 12fed am 7.30 unwaith eto yn Festri Capel Sardis/

**Llongyfarchiadau**

Dymuniadau gorau i Huw Wilcox a'i wraig Lois. Priodwyd y ddau yng Nghapel Tabernacl, Dolgellau ddiwedd Ebrill. Mae Huw yn fab i Sian Crowley, Graigwen ac Irwyn Wilcox, Sir Benfro. Cynhaliwyd y wledd ym Mhortmeirion. Mae Huw a Lois wedi ymgartrefu yng Nghaernarfon.

**Clwb Llyfrau**

Y nofel dan sylw y mis yma yw 'The Wake' gan Anna Hope. Byddwn yn cwrdd yng Nghlwb y Bont nos Fawrth , Mai 13 eg am 8.00.

Cyfrol mis Mehefin yw 'Gabriela' gan John Roberts. Dewch i ymuno yn y trafod nos Fawrth, Mehefin 17eg.

**Hel Achau**

Mae Dafydd Idris Edwards, y Comin wedi bod yn brysur yn llunio ei 'Dderwen Deuluol'. Yn ystod taith Cor Godre'r Garth i Ynys Manaw dros Y Pasg cafodd Dafydd gyfle i ymweld â phlasdy oedd yn perthyn ar un adeg i aelod o'i deulu. Yn 1963 prynwyd plasdy a gerddi Milntown, ger Ramsey gan Lady Kathleen Edwards ac ers marwolaeth ei mab, Syr Clive Edwards yn 1999 mae'r stad yng ngofal Ymddiriodolaeth Miltown. Roedd Dafydd wrth ei fodd yn cael ei dywys o gwmpas y tŷ ac i goroni'r cyfan fe ganodd e a Chôr Godre'r Garth i ymwelwyr i'r plasdy yn yr awyr agored yn y gerddi hardd ar bnawn hyfryd o wanwyn Llun y Pasg. Achlysur arbennig i un o aelodau gwreiddiol y côr yn ystod dathlu 40 mlwyddiant ers ei sefydlu!

# Ysgol Dolau (lluniau tudalen 17)

**Ymweliad Bae Caerdydd a Techniquest**
Aeth Blwyddyn 3 a 4 ar drip gwych i ymweld â chanolfan Techniquest ym Mae Caerdydd. Cawson nhw'r cyfle i archwilio o amgylch yr offer Gwyddonol a Mathemategol. Eu hoff ran o'r dydd oedd y sioe Datrys problemau. Roedd yn rhaid iddynt gydweithio fel dosbarth er mwyn defnyddio eu gwybodaeth fathemategol i ddianc o'r Tŵr Hunllefus. Diolch i chi Techniquest am ddiwrnod hyfryd! Fel rhan o'n thema Bae Caerdydd cafodd y plant gyfle i grwydro'r Bae a gweld yr adeiladau buon yn dysgu amdanynt.

**Sport Relief**
Ddydd Gwener 21ain o Fawrth cynhaliwyd diwrnod hwyl o weithgareddau ar gyfer y disgyblion a'r staff i godi arian ar gyfer Sport Relief. Cymerodd plant y babanod ran mewn her Zumba am dair awr. Ellie Jones a Sali Hughes o Ddosbarth 8 arweiniodd y Zumba gyda phawb yn eu tro yn cael cyfle i ddawnsio. Yn ystod y prynhawn cymerodd plant yr adran iau rhan mewn twrnament rygbi Tag lle cafodd athrawon y tîm a gollodd ei gwlychu gyda dŵr a sbwng! Roedd y prynhawn yn cynnwys twrnamant lle oedd yr holl ddisgyblion a'r staff yn cynrychioli tîm ledled y byd. Daeth hyfforddwyr lleol o Glwb Rygbi Llanharan i mewn a helpu gyda'r diwrnod. Yn gyffredinol, wnaeth y diwrnod helpu ni i godi dros £ 400 ar gyfer Sport Relief.

**Hyfforddiant Rygbi**
Roedd blwyddyn 4 yn ffodus i gael hyfforddiant rygbi gan fyfyrwyr o Brifysgol De Cymru. Mwynheuodd y plant ddysgu ac ymarfer sgiliau a chwarae gemau gyda'r hyfforddwyr, dim ots pa dywydd oedd hi!

**Wythnos Gwyddoniaeth**
I ddathlu Wythnos Gwyddoniaeth gwnaeth pob dosbarth cymryd rhan mewn nifer o weithgareddau amrywiol. Roedd y gweithgareddau yn ymarferol a llawn hwyl o'r Feithrin i flwyddyn 6. Roedd gweithgareddau ar rocedi, cylchedau trydanol, dylunio technolegau'r dyfodol a choginio, i enwi ychydig ohonyn. Mwynheuodd pob un o'r disgyblion wrth gymryd rhan yn y gweithgareddau ymarferol.

**Côr yr Ysgol**
Mae côr yr ysgol wedi bod yn brysur tu hwnt dros y tair wythnos diwethaf yn ymarfer at gystadleuaeth 'Côr PONT y Flwyddyn'. Ar ôl dod yn fuddugol yn y rownd gynderfynol, aeth y côr ymlaen i gystadlu yn y rownd derfynol yn erbyn 5 côr arall. Roedd y gystadleuaeth yn un agos iawn ac fe berfformiodd pob côr i safon uchel iawn. Arhosodd y plant yn eiddgar wrth i Glyn Wise, un o'r beirniaid, ddarllen y canlyniad. Codwyd y to gan y cymeradwyaeth a ddaeth wrth iddynt gyhoeddi mai 'Côr PONT y Flwyddyn 2014' oedd Côr Ysgol Gynradd Dolau!

**Gweithgareddau'r Pasg**
Fore dydd Gwener y 4ydd o Ebrill roedd plant yr Adran Gymraeg yn Ysgol Dolau yn brysur yn dysgu am ddathliadau'r Pasg. Roedd plant yr adran Iau wedi cydweithio â'r Babanod yn ystod bore llawn hwyl! Cawsant gyfle i greu cardiau, chwarae gemau a hyd yn oed chwarae rôl stori'r Pasg! Mae'r plant wedi mwynhau gweithio a chefnogi ei gilydd ac roedd yn gyfle gwych i ddatblygu'r Iaith Gymraeg ar draws yr Adran.

**Eisteddfod Sir**
Unwaith eto, fe wnaeth tîm dawns Ysgol Dolau yn arbennig o dda yn cystadlu yn yr Eisteddfod Sir. Perfformiodd y plant i'r safon uchaf ac roedd Miss Jenkins a Miss Osbourne yn falch iawn ohonynt. Daeth Ellie Rees yn 3ydd yn y ddawns unigol, gyda'r disgo a thimau creadigol yn 2il. Da iawn ferched!

**Gwenynen Geiriau Saesneg 2014**
Llongyfarchiadau i Charlotte Kwok am ennill ein Cystadleuaeth 'Spelling Bee'. Roedd hi'n gystadleuaeth agos tu hwnt a chyffrous iawn gyda Joshua Yau yn ail. Dim ond un gair o wahaniaeth! Enillwyr y blynyddoedd unigol oedd Charlotte Bl. 3 a Joshua Bl. 5, a Cory Sibley Bl. 6 a Macy Meredith Bl. 4. Llongyfarchiadau i bawb gan gynnwys aelodau'r gynulleidfa oedd wedi gwisgo yn eu gwisgoedd gwenyn. Roedd rhai wedi ennill gwobrau siawns am eu sillafu hefyd. Diolch yn fawr i'r staff am eu gwaith caled .

**Athletau**
Cafodd 12 o ddisgyblion blwyddyn 6 eu dewis ar gyfer cystadleuaeth athletau dan-do yng nghanolfan chwaraeon Rhondda Fach. Y deuddeg oedd Rhys Dauncey, Kieran Janes, Cory Sibley, Ethan Richardson, Morgan Leyshon, Dewi Roberts, Ellie Rees, Cordelia Evans, Isobelle Hawkshaw, Sali Hughes, Abby Vickers a Mali Rhys-Thomas. Cystadlodd y plant yn rhagorol mewn nifer o gystadlaethau - gwaywffon, naid hir, taflu a ras cyfnewid. Pwy a ŵyr - Olympiaid y dyfodol yn ein plith!

**Traws-gwlad**
Ddydd Sadwrn Ebrill, 22ain aeth y tîm traws-gwlad i Ysgol Pencoed ar gyfer y trydydd ras yng nghystadleuaeth ysgolion Pen-y-bont. Tywydd perffaith i redeg a wnaeth y canlyniadau adlewyrchu'r tywydd gyda Cory Sibley yn 1af, Ethan Richardson 6ed, Hywel Leyshon 12fed gydag Adam Kinsey ar ei ôl! Da iawn i bawb a redodd. Ddydd Iau, Ebrill 3ydd, cynhaliom gystadleuaeth yn yr ysgol ar gyfer ysgolion clwstwr Ysgol Y Pant. Daeth dros 100 o redwyr a rhedodd yn wych yn yr oer a glaw!! Diolch i'r holl ysgolion a rhieni am gefnogi.

# Ysgol Castellau
**(lluniau tudalen 17)**

**Datblygu Darllen**
Mae sgiliau darllen rhai o ddisgyblion Castellau wedi datblygu'n rhyfeddol dros y misoedd diwethaf. Bob dydd Mercher daw Mac y ci (a Julie!) i wrando arnynt yn darllen ac y mae'r plant wrth eu bodd. "Does dim ots os wnai gamgymeriad o flaen Mac," meddai un disgybl, ac "Mae e'n gwrando'n well na Dad!" medd un arall.

**Croeso nôl**
Hyfryd oedd croesawu Mrs Bethan Rowlands nôl i'n plith ar ôl y Pasg yn dilyn ei chyfnod mamolaeth gyda Anwen.

**Partneriaeth â Sri Lanka**
Braf oedd croesawu Shamika, athrawes o Sri Lanka i'r ysgol fel rhan o brosiect 'Connecting Classrooms' y British Council. Diolch i Mrs Minton am eu thywys o gwmpas a rhoi gwers ar ddiwylliant yr ardal iddi. Bydd Mr Davies yn ymweld a Sri Lanka ym Mis Mehefin er mwyn datblygu gwaith Mathemateg rhwng y ddwy ysgol.

**Codi arian ar gyfer y daith i Wlad Belg**
Bydd timau pêl-rwyd, rygbi a phêl-droed yr ysgol yn chwarae mewn gemau ym Mrwsel ym mis Mai. Bu'r 21 disgybl sy'n teithio'n brysur un bore Sadwrn yn helpu siopwyr yn Tesco i bacio'u bagiau gan godi dros £700 tuag at gostau'r daith. Da iawn chi a phob lwc yng Ngwlad Belg.

**Pêl-droed**
Llongyfarchiadau mawr i dîmau pêl-droed yr ysgol am chwarae mor dda yng nghystadleuaeth yr Urdd yn ddiweddar.

**Pel-rwyd**
Da iawn i'r tim pel-rwyd am ennill tair gem yn ystod yr wythnosau diwethaf yn erbyn Ysgol Pont Sion Norton a Gwaunmiskin, 10-0, 9-0 ac 16-0.

**Rygbi**
Da iawn i'r tim rygbi am ennil o 6 cais i 3 yn erbyn Gwaunmiskin.

## Ysgol Dolau



Taith i Fae Caerdydd






Coginio Gwaith Rocedi



Hyfforddiant Rygbi



Techniquest



Wythnos Gwyddiniaeth




Tîmau pêl-droed yr ysgol



Codi arian ar gyfer y daith i Wlad Belg



## Ysgol Castellau



Bardd Buddogol - Enillydd y Gadair eleni oedd Daniel O'Dell am ei gerdd "Cawr Castellau"



Croesawu Shamika, athrawes o Sri Lanka

## YSGOL GYNRADD GARTH OLWG



Cyflwyniad 'Cerddorfa'



Ffion Devonald ennillydd 'Pobi Pasg'

## Menter Caerdydd







Gweithgareddau
Gwyliau'r Pasg




## Ysgol Llanhari



Hetiau Pasg



Drymio
Affricanaidd



Disgyblion Seicoleg
gyda Dr Zimbardo



Dyraniad calon gyda Dr Ellis



Criw taith Sgio Llanhari ar y siwrne yn eu hwdis newydd.



Taith yr Adran
Ddaearyddiaeth i Wlad yr Iâ



# YSGOL GYFUN GARTH OLWG

**Rygbi ysgolion Pontypridd**
Diwrnod llwyddianus a gwlyb i dïm rygbi Gartholwg blwyddyn 8 cyn gwyliau'r Pasg wrth guro Ysgol Bryncelynnog yn rownd derfynol rygbi ysgolion Pontypridd gyda gêm dda iawn er bod yr amodau mor wael. Chwaraeodd y bechgyn yn ddawnus gyda sgiliau arbennig i'w gweld. Y sgôr terfynol oedd 32-12 i Gartholwg.

Hefyd chwaraeodd tim Blwyddyn 7 yn erbyn Bryncelynnog yn eu gem terfynnol ysgolion Pontypridd ond yn anffodus collodd y bechgyn y tro hwn!

**Gwibiwr o fri! Daniel John blwyddyn 7**
Nid oes neb yn gallu dal Daniel! Yn ddiweddar cafodd Daniel John ei wahodd i redeg yn y 'Junior London Marathon' ar ôl ei lwyddianau a dod yn bencampwr traws gwlad Cymru. Llongyfarchiadau mawr i ti Daniel.

**Llwyddiant yn yr Eisteddfod**
Llongyfarchiadau mawr i holl blant yr Ysgol a fuodd yn cystadlu yn Eisteddfod Sir yr Urdd yn ddiweddar. Diolch yn arbennig i'r athrawon a fu wrthi'n brysur yn eu hyfforddi.

Mae'r cystadleuthau yma yn mynd ymlaen i'r Bala i'r Genedlaethol:
Y gân actol dan 15, Yr ymgom dan 15,
Charly Ann Brookman – monolog 15- 19,
Parti llefaru dan 15, Parti llefaru dros 15,
Parti merched dan 15

**Cambodia**
Ddiwedd mis Mawrth treulion ni, y grŵp sy'n mynd ar alldaith i Fietnam a Cambodia yn yr haf, benwythnos yn Longtown, Henffordd er mwyn ymarfer ein sgiliau ar gyfer yr alldaith. Bu rhaid i ni godi'r pebyll tra roedd hi'n bwrw glaw, gan wlychu ein cartrefi am y penwythnos. Cawsom y cyfle i ddod i nabod ein gilydd yn well fel grŵp a threulio amser gyda'n gilydd tu allan i'r ysgol. Cwrddon ni â'n harweinydd Charlie sy'n mynd i sicrhau ein bod ni'n gweithio'n galed wrth gael hwyl! Dechreuon ni'n gynnar ar y Dydd Sadwrn er mwyn cerdded llwybr anturus a heriol iawn; llwyddon ni i gerdded 20km mewn 9 awr. Ar ôl blasu sgiliau coginio



Paratoi ar gyfer Cambodia

bendigedig y bechgyn roedden ni wedi haeddu'r noson o gwsg. Yn anffodus doedd hynny ddim i fod gyda thymheredd o dan 0°C a iâ ar y pebyll, sefyllfa waeth i Trystan, heb sach gysgu na blanced! Ond, tra roedd pawb yn herio'r tywydd oer penderfynodd yr athrawon dderbyn cysur gwresogydd y car! Er bod y penwythnos yn sialens cawson ni lawer o hwyl a dysgon ni lawer i'n paratoi ar gyfer yr haf.

**"Dros y top"**
Daeth cwmni Theatr Bara Caws i gynnal eu refiw "Dros y top" yn Theatr Garth Olwg ddechrau mis Ebrill. Perfformiad gwych ar thema y Rhyfel Byd Cyntaf. Fel rhan o'r cynhyrchiad cymunedol hwn, anogwyd cymdeithasau neu unigolion i gyfrannu at y perffomiad. Dewiswyd Ysgol Gyfun Gartholwg yn yr ardal hon a chafodd Blwyddyn 12 Drama gyfle i berfformio o flaen y gynulleidfa. Ceisiwyd rhoi blas lleol drwy olrhain hanes llanc ifanc o'r ardal, mab y ficer lleol, a aeth i'r rhyfel mawr ac a fu farw yn 1917. Gellid gweld ffenstr lliw yn yr eglwys leol yn coffau ei fywyd. Roedd hi'n brofiad arbennig cael cyfrannu at y noson ac i deimlo'n rhan o gynhyrchiad mor emosiynol a theimladwy.

Diolch i Gwmni Theatr Bara Caws am y cyfle hwn.

**Taith Bioleg Bl.12 i Techniquest**
Fel rhan o'r cwrs lefel A aeth dosbarth Bl 12 Bioleg i labordai Techniquest ar Fawrth y 27ain. Roedd hwn yn gyfle gwych i'r disgyblion ddefnyddio technegau biocemegol nad yw'n bosib iddynt wneud yn labordai'r ysgol. Cawson nhw gyfle i gymryd sampl o gelloedd, echdynnu'r DNA, llungopio'r DNA gan ddefnyddio'r adwaith cadwynol polymeras ac yna edrych ar y DNA trwy ddefnyddio'r broses elecofforesis. Roedd hwn yn ymarfer da, yn enwedig i'r disgyblion sy'n paratoi ar gyfer astudio Bioleg ymhellach yn y brifysgol. Yn amlwg, cawson ni cyfle wedyn i chwarae gyda arddangosfeydd gwyddonol Techniquest!



**Mae Cyfeillion Garth Olwg yn eich gwahodd i Noson Gymdeithasol Twpath a Chwis 7.30yh 16 o Fai Canolfan Chwaraeon Llanilltud Faerdref. Tocynnau o'r Ysgol.**

## Ysgol Uwchradd Pontypridd



Georgia Davies blwyddyn 10, rhan o dîm buddugol y grwp Jazz a Junior Pom yn y Cystadlaethau Cenedlaethol.









Yr Eisteddfod

# Torcalon i Bontypridd yn erbyn cewri Leinster

Roedd Sadwrn 26ain o Ebrill 2014 yn ddiwrnod cofiadwy ar Heol Sardis wrth i Bontypridd herio Leinster A yn rownd gyn derfynol Cwpan Prydain ac Iwerddon.

Roedd yr ymwelwyr wedi teithio â charfan gref dros ben, nifer ohonynt wedi chwarae droeon yn ystod y tymor i dîm cyntaf y dalaith Wyddelig. Roedd Leinster hefyd yn ddeiliaid y cwpan ac heb golli eto yn y gystadleuaeth.

Gerbron torf swnllyd o dros 5,000 aeth Pontypridd a Leinster ben ben â'i gilydd mewn un o'r gornestau mwyaf cyffrous a welwyd ar Heol Sardis ers blynyddoedd lawer. Go brin y gallai unrhywun ar y maes ddarogan, pan seiniodd y chwiban gyntaf, faint o gyffro oedd i ddilyn a pha mor gynhyrfus a dadleuol fyddai hynt y chwarae.

Roedd doniau ymosodol Leinster yn amlwg, bob amser yn beryglus â'r bêl yn eu llaw ac yn abl i sgorio tri chais. Roedd Pontypridd fodd bynnag yn arwrol wrth amddiffyn ac yn barod i gymryd y gêm i'w gwrthwynebwyr a hynny mewn modd corfforol a herfeiddiol.

Amlygodd nifer o dîm Pontypridd eu hunain yn ystod y gêm, y pac yn brwydro am bob modfedd o diriogaeth, y mewnwr ifanc Joel Raikes yn croesi am unig gais ei dîm, a'r maswr Simon Humberstone yn rheoli llif y chwarae yn ddeallus.

Pan ddaeth yr amser arferol o wyth-deg munud i ben roedd Ponty ar y blaen o 22 pwynt i 15. Aeth y chwarae ymlaen am gyfnod hirfaith o amser anafiadaul a gyda saith munud wedi mynd heibio croesodd Leinster am gais holl bwysig, a'r trosiad yn dod a'r sgor yn gyfartal 22 pwynt yr un. Chwaraewyd amser ychwanegol o ddeg munud bob ffordd, a'r ddau dîm erbyn hyn yn blino'n llwyr wedi gornest mor gorfforol. Chafwyd yr un sgor arall, a chyfartal 22 pwynt yr un oedd hi pan seiniodd y chwiban olaf. Leinster felly hawliodd eu lle yn rownd derfynol Cwpan Prydain ac Iwerddon gan iddynt sgorio mwy o geisiau na Phontypridd.




Roedd arwyr Ponty wedi rhoi o'u gorau, ac wedi ennyn parch ac edmygedd y dorf enfawr ddaeth i'w gwylio. Er gwaetha'r siom enfawr o fethu a chyrraedd y rownd derfynnol, roedd Pontypridd yn sicr wedi gwneud eu marc ar Gwpan Prydain ac Iwerddon, ac wedi cyfrannu yn llawn i un o'r gemau rygbi gorau a welwyd ers tro byd.

Ond dydd Sul, 4ydd Mai daeth llwyddiant i Bontypridd yn erbyn Cross Keys wrth iddynt ennill Cwpan Swalec am yr ail dro yn olynol yn Stadiwm y Mileniwm gyda Geraint Walsh yn Seren y Gêm.









